

ECO'R WYDDFA

Rhif 126

MEHEFIN 1987

Pris 20c

TALENT GERDDOROL




Dyma Gwenan Mair Roberts a enillodd y gystadleuaeth linyddol i rai dan 11 oed yng Ngŵyl Gerddorol Caer yn ddiweddar.

Hi hefyd a enillodd y cwpan am y perfformiad gorau yn yr holl adrannau o dan 16 oed. Cafodd y cwpan ei gyflwyno iddi wythnos ar ôl yr Wyl mewn cyngerdd arbennig yng Nghaer.

Yn ystod wythnos ddiwethaf Mai bydd Gwenan yn cystadlu ar yr unawd linyddol a'r unawd piano yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Merthyr.

CASTELL NEWYDD YN Y FRO?



Oes — ond nid yw hanner mor gadarn â chreigiau Elidir sy'n gefndir iddo. Wedi ei adeiladu'n arbennig y mae o ar gyfer ffilm ffantasi.

CASGLU AT ACHOSION DA

Isod mae tri llun sy'n cynrychioli'r gweithgaredd dyngarol mawr sy'n digwydd ar hyd a lled y fro hon. Er nad yw'n un o'r ardaloedd cyfoethocaf, mae ei thrigolion bob amser yn barod i gydnabod a chyfrannu at achosion da.



Mrs Einir Wyn Owen, Arweinyddes Lleisiau'r Gweunydd yn cyflwyno sic o £450 i'r Cyngorydd Jack Thomas, Cadeirydd Cylch Caernarfon o Bwyllgor Cronfa Ymchwil yr Arennau. Y swm yma yw'r elw a wnaethpwyd yn eu Cyngerdd blyneddol yn Rhiwlas ym mis Ebrill eleni. Yn y darlun hefyd gwelir Mrs Agnes Spawton a Mrs Eiriona Williams, Trysoryddes ac Ysgrifennyddes Lleisiau'r Gweunydd, Mr H H Jones a Mr Maelor Evans, Ysgrifennydd ac Is-Gadeirydd Cronfa Ymchwil yr Arennau.



Swyddogion y Llang Brydeinig yn Llanberis yn cyflwyno dwy sic — cyfanswm o £500 i'r Dr J Davies, Cadeirydd Apêl y Sganiwr.



Mr Ieuan Ellis Jones a Mrs Helen Bradley ar ran cwmni Rheilffordd y Llyn yn cyflwyno rhodd i Mrs Mair Roberts, trysorydd pwyllgor codi arian i brynu peiriant calon ar gyfer ei ddefnyddio mewn ambiwlans. Mae'r peiriant yn costio £5,000 a bydd yn cael ei ddangos mewn noson goffi a gynhelir yn Ysgol Dolbadarn ar Nos Wener, Mehefin 12ed. Yn y llun mae aelodau eraill o'r pwyllgor.

ECO'R WYDDFA

RHIF 126
MEHEFIN 1987

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas,
Bron-y-Nant, Pontrhyallt, Llanrug.
(C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI:
Amranwen Lynch, Gwyddfor,
Penisarwaun (Llanberis 870575).

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs Olwen
Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug.
(Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: Jonn
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed. 870580.

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D.J. Thomas, 8 Maes
Eilian. (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl
Elidir, Llanberis.

LLANRUG: Mrs Gillian Morris,
Annedd Wen, Tal-y-bont.
(Caernarfon 76075)

NANT PERIS: Mrs Mary Ff. Roberts,
Cerrig-y-drudion, Nant Peris.
(871327)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
GORFFENNAF 2
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
MEHEFIN 23
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

WIGWAM

Annwyl Ddarllenwyr,

Carwn dynnu eich sylw ar
"WIGWAM", Gŵyl Gristnogol a
gynhelir ar fferm Tŷ Du, Y Parc, ger y
Bala, rhwng Gorffennaf 17eg a'r 20fed,
1987. Hon yw'r drydedd flwyddyn i'r
wyl gael ei chynnal ac mae'n raddol
ennill ei thir fel un o'r prif weithgarwch
Cristnogol Cymraeg heddiw.

Ei phrif nod yw rhoi cyfle i
Gristnogion o bob enwad gael dysgu,
dathlu a mwynhau eu ffydd. Anelir
llawer o'r gweithgareddau at bobl ifanc
ond gallwch fod yn sicr bod rhywbeth
yno at ddant pawb yn y teulu. Bydd y
gweithgareddau'n dechrau ar y nos
Wener gyda noson "Croeso i Wigwam",
Noson Lawen a thwmpas dawn. Cynhelir
nifer o weithgareddau amrywiol yn ystod dydd Sadwrn gan
gynnwys seminarau, gweithdai,
trafodaethau a chyfle i ymlacio a
chymdeithasu. Yn ystod y noson
cynhelir cyngerdd roc Cristnogol.

Uchafbwynt y pen-wythnos fydd
addoliad y bore Sul ac yna cynhelir
"Coel-cerdd" a fideos gyda'r nos. Eleni
bydd yr ŵyl yn cael ei hymestyn hyd at
fore Llun er mwyn rhoi mwy o gyfle i
bobl ddod i adnabod ei gilydd ac i
fwynhau'r awyrgylch braf. Darperir
maes pebyll a charafanau ar gyfer
gwrsylla, toiledau, dŵr, byrbyrdau,
meithrinfa a stondinau amrywiol ar dir y
fferm. Felly dewch i "Wigwam" eleni
a dewch â chriw efo chi. Os am fwy o
fanylion cysylltwch ag:

Emlyn a Lowri Dole,
Neuadd Carmel,

Heol Carmel,
Pontlliw,
Gn Morgannwg.
neu
Susan Hughes,
30 Rhos Tan-y-Graig,
Glanadda,
Bangor,
Gwynedd.

Delyth Wyn Lloyd, Llandudno.

PWY ALL HELPŮ?

Annwyl Olygydd,

Pwyllgor Llety a Chroeso Bro
Madog

Derbyciwyd nifer o ymholiadau
gan Eisteddfodwyr am
garafanau symudol i'w gosod ar
Faes Carafanau Swyddogol yr
Eisteddfod, yn ôl yr arferiad.

Byddem yn dra diolchgar o
glywed gan unrhyw un o'ch
darllenwyr fyddai yn fodlon
gosod ei garafan dan rent i'r
cyfeillion hyn am yr wythnos.

Mae prinder mawr o fflatiau a
thai hunan-gynhaliol yn yr ardal
gyfagos hefyd - felly os oes
rhywun â llety i'w gynnig
cysyllter â'r ysgrifenyddion -
Ffôn:

Penrhyndeudraeth 770570
neu

Penrhyndeudraeth 770271
Diolch yn fawr,
Nia Evans

TERFYN AR GASGLU PAPUR

Annwyl Olygydd,

A gaf trwy eich papur hysbysebu
eich darllenwyr bod ymgyrch Urdd
Gobaith Cymru i gasglu papur
gwastraff er mwyn helpu gwlad Mali
wedi dod i ben. Bydd y Swyddogion
Datblygu yn gwneud trefniadau i
gasglu unrhyw bapur sydd yn dal ar
ôl ond gofynnwn i chi beidio â
chasglu rhagor.

Er gwaethaf problemau storio a
chasglu, gwnaed elw o dros fil o
bunnoedd tuag at yr achos. Hoffem
ddiolch o galon i bawb a fu'n
gweithio mor galed dros yr ymgyrch
bwysig hon.

Yn ddiffuant,
Mair Eluned

(Pwyllgor Cyd-ddyn a Christ)

DIOLCH

Dymuna Lleisiau'r Gweunydd
ddiolch i bawb a gefnogodd ein
cyngerdd blynyddol a fu mor
llwyddiannus.

Gwnaed elw o £450 tuag at
Ymchwil yr Arennau.

Enillwyr y raffl oedd:

£75: Mrs Eleri Williams,
Porthaethwy; £50: Len Porter,
Penisarwaun; £25: Gwilym Roberts,
Penisarwaun.

DRAENOG

Os oes twrch yn eich gardd,
waeth i chi heb a rhoi trapia,
drain duon, disinfectant, na
mothbols drud yn ei dwne i
geisio ei ddychryn i ffwrdd.

Tydi'o ddim yn gweithio o
gwbl. Wast ar amser ac arian,
medda Ren wrth Laura.

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL ECO'R WYDDFA

Unarddeg yn unig oedd yn
bresennol yn y Cyfarfod a
gynhaliwyd yn Neuadd yr Eglwys,
Penisarwaun ar 23 Ebrill.
Derbyniwyd ymddiheuriadau am
absenoldeb oddi wrth Mrs E.
Whiteside Tomos, Mrs Glenys
Jones, Mr Gwyndaf Jones a Mr
John Roberts.

Cadeirwyd y cyfarfod gan Mr
Selwyn Griffith a'r Cofnodydd oedd
Mr Haydn Jones. Cadarnhawyd
cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol
Blynyddol diwethaf, ond yn codi o'r
cofnodion adroddwyd nad oedd
ateb wedi ei dderbyn gan Gyngor
Cymdeithas Betws Garmon yn
dilyn llythyr a anfonwyd iddynt yn
croesawu pentref Rhyd Ddu i
ddalgylch yr Eco.

Adroddwyd hefyd nad oedd
cyn-olygyddion yr Eco wedi
cyfarfod i sefydlu panel i dynnu
allan reolau a chyfansoddiad i'r
papur. Penderfynwyd bod hyn yn
cael ei wneud yn ddi-oed, ac adrodd
yn ôl i gyfarfod arbennig yn dilyn
gwyliau'r haf.

Derbyniwyd adroddaidau byr gan
bob un o'r swyddogion oedd yn
bresennol. Diolchod y Golygydd
Newyddion Cyffredinol ac
Erthyglau i bawb a oedd wedi
cyfrannu tuag at yr Eco yn ystod y
flwyddyn. Adroddodd hefyd fod Mr
Twrog Jones yn dod yn ôl fel
Golygydd Newyddion cyffredinol
er mwyn i'r Golygydd presennol
ganolbwyntio ar yr Erthyglau.
Diolchwyd yn fawr iawn i Twrog
Jones.

Cafwyd adroddaid gan y
Golygydd Newyddion, ac apeliodd
ar i bentrefwyr gysylltu â'r
Gohebwyr Pentref gydag unrhyw

newyddion. Penderfynwyd gofyn i'r
Gohebwyr Pentref am restr o holl
gymdeithasau sydd yn eu pentref, a
hefyd llythyr at y Cyngorau
Cymuned er mwyn derbyn eu
adroddiadau hwythau.

Diolchodd y Golygydd
Chwaraeon am yr holl adroddiadau
yn ystod y flwyddyn, a diolchodd yn
arbennig i Mr Gwyndaf Hughes, y
Ffotograffydd, am fyned gwmpas i
dynnu'r lluniau.

Cafwyd adroddiad boddhaol
iawn ar ran y Trefnydd

Hysbysebion. Penderfynwyd ein
bod yn codi pris yr hysbysebion nad
oedd yn lleol heb oedi, ond
ymhellach ymlaen bydd angen codi
pris yr hysbysebion lleol hefyd er
mwyn arbed codi pris yr Eco.

Cafwyd adroddiad ariannol
foddhaol iawn, fel y gwelir isod.

Ail-etholwyd yr holl swyddogion,
ag eithrio Mrs Jane Roberts a oedd
yn gyfrifol am Ddyddiadur y Mis.
Gwneir y gwaith yma o hyn ymlaen
gan Mrs Olwen Llywelyn, Pant yr
Afon Bach, Llanrug.

CYFRIFON AM Y FLWYDDYN I 31ain MAWRTH 1987

1984/85		1985/86
£		£
4836.76	Derbyniadau	4862.45
3144.10	Gwerthiant	3547.00
482.80	Hysbysebion	374.30
886.80	Rhoddion	1157.00
236.27	Grantiau	217.28
33.80	Llog	00.00
9620.53	Eisteddfod yr Eco	10158.03
8754.80	Taliadau	9307.00
331.06	Argraffu	193.16
24.00	Ffotograffiaeth	26.98
185.27	Biliau, Amlennia ayb	102.28
8.00	Stampiau	7.00
8.00	Gwobrau	6.64
0.00	Cystadleuaeth Pêl-droed	5.00
	Llogi Ystafell	
9311.13		9648.06
309.40	Incwm yn fwy na'r gwariant	509.97
3869.30	Cronfa'r Eco	4178.70
309.40	Mewn llaw dechrau'r Flwyddyn	509.97
4178.70	Elw'r flwyddyn	4688.67
	Mewn llaw diwedd y flwyddyn	

TALWRN Y BEIRDD

Dyma gynnyrch beirdd Llanrug a fu'n cystadlu yn erbyn beirdd Caernarfon fis Ebrill. Cyfartal oedd y sgôr gyda'r ddau dim yn ennill 92 o farciau.

Englyn yn cynnwys y llinell: 'Yn hyn o fyd dyn ni fedd'.

'ROL CASGLU PETHAU'R BYD

Gwae heno fy nigonedd - yn llifo'n
Hunllefau diddiwedd;
Yn hyn mfyd dyn ni fedd,
Er llawned, aur y llynedd.

JOHN ROBERTS

Limrig yn ymwneud â gyrru tractor

Daeth englyn wrth gerdded tuag ato
A chwydd 'rol dipyn o reffio
Wrth symud yn araf
Yn dal'n y gôr gyntaf
Roedd awdl 'Cynhaeaf' 'di llunio.

TWROG JONES

Cwpled Caeth yn cynnwys yr enw
Noa.

Noa'r aur - cyn mynd i'carch
A gefaist dy longyfarch?

IWAN ROBERTS

Pennill tri thrawiad yn cynnwys
dim ond enwau merched.

Elenid Alwena, Eluned Helena,
Ann Meinir, Non Menna, Meg Anna, a
Gwen,
Amelia a Mali, Lois, Carys a Ceri
Euronwy, Nel Sali a Sulwen.

DAFYDD WHITESIDE THOMAS

Englyn Cywaith: Milltir
MILLTIR

Pan ddaw'r siwrnai fawr neu'r fyrraf - i ben
Yn ddoen, heb anaf,
Yn ei bryd does dim mwy braf,
Na haul y filltir olaf.

JOHN ROBERTS

Cân (dim mwy na 20 llinell): Tylwyth
Teg

TYLWYTH TEG

Neithiwr, 'roedd 'na griw o'r tylwyth teg
Yng ngwaelod yr ardd 'cw toc ar ôl deg,
Fe'i gwelais nhw yno â'm llygad croes
Wrth im 'rowlio adra o Dafarn y Groes;
Roeddann nhw'n martsio yn laddar o
chwys
I fyny ac i lawr y rhesi pys,
I gynnal Steddod ym mhen draw yr ardd,
Ac yn paratoi i goroni'r bardd;
Mewn gwisgoedd glas a gwyrdd a gwyn,
A minnau yn edrych arnynt yn syn
Yn llonydd a swrth, o dan y coed rhosod
Neu ar wastad fy nghefn yn y gwely
nionod;
'A oes heddwch?' medd un, yn uchel
braidd,
Gan dynnu coesyn riwbob o'r gwraidd
A'i ddal yn dalog uwchben y bardd
A enillodd y goron ym mhen draw'r ardd.
A bore heddiw fe dybiech yn wir
I'r ardd fod yn gyrchfan i holl gathod y Sir,
A chefais innau gan Siani lond ceg
Am geisio rhoi'r bai ar y tylwyth teg.

SELWYN GRIFFITH

Hir a Thoddaid yn cynnwys y llinell:
'Wrthfyf hunan hiraethaf heno'.

I'm tralod fe geisaf ataf eto
Gyfaredd yr hedd fu'n fy sobreiddio
Mewn cilfachau cyfrin, ond edwino
Mae y cof, ac anodd im yw cofio
las y swyn deimlais yno - yn fudan,
Wrthfyf hunan hiraethaf heno.

IWAN ROBERTS

Pennill Ymson (dim mwy na 8
linell): Cyfieithydd

CYFIEITHYDD

Eisteddaf yn bwysig yng nghanol y wled
A myrdd o ddanteithion o'm blaen,
Ar y chwith Gorbachev, ar fy ne Musus T
Yn baldorddi, mae'n goblyn o strae'n;
Tra bo'r naill yn dweud gair, gwagio'i blat
y mae'r llall,
I mi yn y canol dim siawns,
Mi 'dw i'n siarad drwy'r amser, a fwrdd
a'm plat llawn
- Ond mi ga'i fy nhamaid 'ny ddawns

JOHN ROBERTS

Cywydd (dim mwy na 12 llinell):
Cymwynaswr

"CYMWYNASWR" (Bob Geldof)

Ti yw'n gwaedd; ti yw'n gweddi;
Tyrd heno i'n herio ni
A'th gitar i bedwar ban;
Ti yw'r llef; ti yw'r llwyfan;
Ti yw'r cri uwch y tir cras,
A'r gwyn o'r erwau gwynias.
Ti yw'r canwr sy'n troi cyni
Eu nos yn gyfle i ni
I adfer gwenau'r lledfyw
A rhin bur ein "Harian Byw".
Hynod Gelt o blaid y gwan -
Ti yw'r cof; ti yw'r cyfan.

TONY ELLIOTT

Pennill Mawl i Ynni Niwcliar

"YNNI NIWCLEAR"

Pa le, pa fodd dechreuaf foliannu'r ynni
hwn?
Clodfodi'r grym sy'n llwyddo i lygru'r
cread crwn.
Er cryfed ydyw seiliau y temlau concrit
hyn,
Mae'r gwenwyn anweledig yn llifo'n slei
i'r llyn.
Fe sonir am rinweddau a gwyrthiau'r
Wylfa fawr,
Tros fawnog lom Trawsfynydd gwasgerir
llwch yn awr;
Fe chwythwyd ias Chyrnobyli bedwar ban
y byd,
Diderfyn a difesur yw'r ynni marwol drud.
Ond diolchwn am yr ynni wna'n "byw bob
dydd" yn haws,
Y nerth sy' nghroth yr Wylfa a'r grym yng
nghrombil Traws;
Er gwaetha'r cur a'r gofid a'r loes a'r
llygaid llaith,
Fydd neb yn poeni 'fory wrth grwydro'r
anial maith.

SELWYN GRIFFITH

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

O GYNGOR CYMDEITHAS LLANDDEINIOLLEN

Miss Phyllis Ellis, Penisarwaun fydd
Cadeirydd Cyngor Cymdeithas
Llanddeiniolen am y flwyddyn, a
Mr Phil Edwards, Deiniolen fydd yr
Is-Gadeirydd.

Cyn ymadael â'r gadair, talodd y
Cadeirydd Mr Bobbie Williams,
deyrnged i'r diweddar Gynghorydd
Richard Hughes a fu'n aelod
ffyddlon o'r Cyngor dros ardal
Seion, Llanddeiniolen am dros
chwarer canrif.

Croesawyd pedwar aelod
newydd, y cyfan dros ward Bethel,
lle bu etholiad - Richard Lloyd
Jones a Dewi Rowlands dros Fethel
a Ronnie Hughes ac Idris Morris
dros ardal Seion a Llanddeiniolen.
Bydd Mr Idris Morris yn
cynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd
Llywodraethol Ysgol Bethel hefyd.

Eglurodd y Cynghorydd Bobbie
Williams, Deiniolen, fod trefniadau
wedi eu gwneud gyda'r MSC i
dacluso a glanhau Afon Caledffrwd,
Deiniolen, ond yn anffodus yr
oeddynt yn cael trafferthion i gael

gweithwyr i ymgymryd â'r gwaith.

Chwilio am "gymwynaswr bro"

Mae Cyngor Cymdeithas
Llanddeiniolen yn awyddus i
gydnabod mudiadau ac unigolion
sy'n dangos awydd a pharodrwydd i
wella'r amgylchfyd yn y pentrefi o
fewn i ffiniau'r plwyf. Golyga hyn
dacluso darn o dir diffaith, llwybrau
cyhoeddus, hen adeiladau, neu
eiddo cyhoeddus sy' angen sylw.

Dyma gyfle felly i fudiadau
cyhoeddus, neu ysgolion, neu
unrhyw sefydliad o fewn y pentrefi,
neu hyd yn oed i unigolion wneud
rhywbeth er lles eu pentref. Bydd y
cyngor yn ystyried pob gwasanaeth
a roddir, ac yn cydnabod hynny
drwy gynnig tystysgrifau pwrpasol
i'r cymwynaswyr bro hyn.

Gobeithir y bydd cynllun o'r fath
yn gymorth i allu atal y fandaleiddio
parhaus sy'n cael ei achosi i
adeiladau ac i eiddo cyhoeddus, a
sydd yn y pen draw yn achosi costau
ychwanegol cwbl di-angenrhaid i ni
oll fel trethdalwyr.

Cywaith Rhydd: Telyneg Dau Bennill:
Y Parc

"Y PARC"

Pan droediai'r haf yn bwylllog
fel pladurwr hyd dy erwau,
tynaist gymdogaeth ynghyd
i ddathlu dy ddiwyllio
ac i gofio tymorhau hir y meithrin.
Gwelaist eu plant yn gwibio'n welnoliaid
rhwyng rhesi y teisi twt
ac ymgolli'n fodlon yn aeddfedrwydd eu
cynhaliaeth
Daethant oll i gau yn dynn
fel brigau dy wrychoedd
hen, hen gwlwm
y perthyn.

Mae bylchau hyd ymylon
dy erwau, ac heddiw
daeth seibiant o gymdeithas
i ddathlu dy feddiannau
ac i anghofio'u bwrn.
Eu plant a wibiant fel gwenoliaid
rhwyng rhesi y teios twt
yn bodloni ar eu cynhaliaeth unnos.
Dibethyn ydynt, fel brigau'r gwrychoedd
a ddiwreiddwyd
ac a sathrwyd i'r sofr
dan eu traed.

TWROG JONES

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion
tuag at gronfa'r Eco:


£10: 'Er cof am Tommie' gan
Kathleen Jones, Prenteg,
Deiniolen.

£5: Mr a Mrs E W Griffiths, 6 Tai
Arthur, Penisarwaun; Mrs Pricilla
Williams, Eirwen ac Alwyn, Wylfa,
Deiniolen; Mr a Mrs Cledwyn
Jones, Llanberis.

£3: Mrs Williams, Bron Eryri,
Llanrug; Mrs Jones, 9 Maes Eilian,
Dinorwig; Teulu Terfyn, Nant
Peris.

£2: Mrs Rene Williams, 4 Maes
Eilian, Dinorwig; Mr William
Jones, Ffordd Capel Coch,
Llanberis; Mr a Mrs Goronwy
Lewis, 18 Rhydfadog, Deiniolen;
Di-enw, Deiniolen; Di-enw,
Penisarwaun; Mrs Irene Williams,
12 Rhes Vaenol, Deiniolen.

£1: Mr Alan Roberts, Penygroes;
Lena A Rowlands, 12 Pentre
Helen, Deiniolen; Di-enw, Nant
Peris; Mrs Gwyneth Jones, 24
Bryntirion, Penisarwaun.




**Caernarfon
Industrial
Supplies**

BRYNAFON, LLANRUG, Ffôn: Caernarfon 4448

Hoelion, Sgriws, Bolltiau, "Fasteners",
Sgidiau, Wellingtons, Cotiau gwarchod a
hamdden, oll am Brisiau gyda'r rhataf yn
y fro.

Tŵls C.K. am brisiau cystadleuol

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

**Ffôn:
Y FELINHELI 670556**

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol



DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

CRONFA APÊL EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD - DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990: Cafodd y gronfa gychwyn da yn ystod yr wythnosau diwethaf pan gasglwyd arian drwy gyfrwng gêm a ddyfeisiwyd i ddarganfod pwy fyddai y cyntaf i sgorio yn y Cup Final rhwng Coventry a Spurs. Er nad yw y cyfan o'r arian wedi dod i law ymddengys y bydd dros £25 wedi cael ei gasglu. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb a ymunodd yn hwyl y gêm a sicrhau bod y swm uchod wedi ei gasglu. Hefyd erbyn i chwi ddarllen y nodiadau hyn bydd gweithgareddau eraill wedi eu trefnu a mwy o arian wedi ei gasglu. Ar y 25ain o Fai bydd Meirion Thomas o 1 Bro Elidir wedi bod ar daith gerdded nodedig i ben yr Wyddfa ac ar y 29ain o Fai bydd y merched sydd yn aelodau o'r pwyllgor wedi trefnu disgo i blant dan 12 oed yn y Ganolfan leol. Felly mae'r sefyllfa yn argoeli'n dda ar gyfer codi dipyn o arian dros y misoedd nesaf. Adroddwn yn llawn am y gweithgareddau hyn ac am swm yr arian a gasglwyd yn y rhifyn nesaf o'r Eco. Yn y cyfamser cofiwch gysylltu â'r trysorydd Mrs Rita Wood, Fron Heulog, os ydych yn dymuno cyfrannu i'r gronfa neu gysylltu ac aelodau eraill o'r pwyllgor os oes gennych syniadau gwreiddiol tuag at godi arian.

PROFEDIGAETH: Rhaid dechrau'r nodiadau y tro hwn lle'r oeddem yn diweddu y tro diwethaf. Yr oeddw'n yr adeg honno bron cwblhau'r newyddion ar gyfer y rhifyn pan gefais y newydd am farwolaeth Mr Moses Williams, 'Gwylfa', Pen Islân. Pan euthum i gydymdeimlo â'r teulu fe gefais wybodaeth nad oedd yn fy meddiant yn flaenorol. Fe ddeallais

i'r diwedd ddod i'w ran yn y tŷ lle ganwyd ef. Fe fu'n treulio ei febyd yng "Nghraig y Fachwen" yn yr ardal honno, ac ar ôl hynny fe'i cawn yn symud i'r tŷ lle deuais i i'w adnabod gyntaf - sef i fyfyr Lôn Penbont, yn ymyl y Gronfa Ddŵr a dynnai ei dyfroedd o ffynhonnau ochrau'r Trysgol.

Yn Ysgol Llandinorwig, felly y dechreuodd ei ddyddiau ysgol - fel finau - dyddiau Miss Price, Miss Evans a'r prifathro Mr Roberts. O'r ysgol fe aeth ef i'r chwarel a minnau i hen ysgol Bryn'refail. Yn nhrefl yr amser fe dreuliais innau dymor yn ei gwmni yn y chwarel. Fe ddaeth diwedd i hyn eto pan gaewyd y chwarel, a'r chwarelwyr yn cludo eu harfau adref am y tro olaf. Pennod drist iawn oedd hon yn hanes Chwarel Dinorwig - teuluoedd yn chwalu i ail ddechrau byw mewn ardaloedd eraill a cheisio ymsefydlu mewn diwydiannau newydd. Aeth heibio dydd clywed "corn y Chwarel" a'r ergydion ar amserau penodedig i hollti'r graig a'i gwneud yn hwylusach i'w thrin. Fe gefnwyd ar ffordd o fyw oedd yn unigryw, ac atgofion yw'r cyfan o hyn bellach.

Rhaid er hynny gadw'r gwaith i lifo ymlaen yn y capeli a'r eglwysi. Fe ymwelir o hyd â'r canolfannau i gynnal Cymanfaoedd Canu, ac mae hyn yn dod i ran pob enwad yn ddiwahaniaeth.

GWELLHAD: Bellach fe gawsom y pleser o groesawu Mrs Elizabeth Jones yn ôl i 9 Maes Eilian. Fe fu dan driniaeth yn yr ysbyty, ac yna'n treulio ychydig ddyddiau yng nghartref ei merch, ger yr Wyddgrug. Mae'n araf adennill ei nerth, er o bosibl bod y tywydd yn milwrio yn ei herbyn. Y mae'n dymuno i ni ddiolch

ar ei rhan i'w theulu, cymdogion a ffrindiau yn ogystal ag Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri am y gofal a phob caredigrwydd a dderbyniodd. Dywaid "Diolch yn fawr."

Fe estynnwn yr un croeso'n ôl i Mr R Williams, Tan Fron, yntau wedi bod mewn ysbyty yn Wirral, ond ar ei ffordd i wella a mwynhau ei gynefin iechyd.

MARWOLAETH: Ar Fai 19eg, yn Ysbyty'r Druid, Llangefni, bu farw Sister Lily Roberts, o 'Elm Bank', Ffordd Siliwen, Bangor (gynt o Maen gwyn, Dinorwig).

Trist i'w chyfeillion oedd clywed am farwolaeth Mrs Myfanwy Butler, priod Mr Joseph Butler, Snowdon

View, Llanberis.

YR EGLWYS: Mae'r Eglwys yng Nghymru hithau'n cynnal ei Gŵyl Gorawl ar Fai 31ain yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis. Fe neilltuir y pnawn, wrth gwrs, i'r plant a'r hwyr i'r oedolion. A thra'n sôn am yr Eglwys yng Nghymru fe ddeallwn fod y Parch Hywyn Jones yn symud o Gergybi i Borthmadog.

CAPEL SARDIS: Fe edrychwn ninnau yn Sardis ymlaen at yr Ŵyl Bregethu a gynhelir ar y Sulgwyn.

Y tywydd sy'n rhoddi y lleiaf o ysbrydoliaeth i bawb a'r haf yn ymddangos fel pe'n hir yn dod ac ychydig o ragolwg am lysiau a blodau.

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580



Mrs Carol Houston a Mrs Pat Jones, enillwyr y gemau badminton dan nawdd Sefydliad y Merched Arfon.

BEDYDD: Dydd Sul, Ebrill 26ain, yn ystod oedfa'r bore yng Nghapel MC Brynrefail, bedyddiwyd Ruth Angharad, merch Mr a Mrs Bleddyn Owen, Tros yr Afon. Gweinyddwyd gan y gweinidog y Parch John Morris.

CERDDOROL: Llongyfarchiadau i Marian Lloyd Jones, 3 Trem Eilian ar ei llwyddiant mewn arholiad ysgrifenedig mewn cerddoriaeth dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol. Enillodd 91 o farciau allan o 99 yn yr arholiad Gradd 1.


CYMANFA DOSBARTH PADARN: Derbyniodd y canlynol o Ysgol Sul Brynrefail wobrau am eu gwaith yn yr Arholiad Llafar yn y Gymanfa a gynhaliwyd yng Nghapel Ysgoldy, Clwytbont ar Fai 3ydd. **Dan 7 oed:** Rhian Wyn Davies; **Dan 11 oed:** Owain Gwyn, Marian Lloyd Jones a Nocola Louise Houston. **Dan 13 oed:** Eira Wyn Evans; **Dan 14 oed:** Catrin Gwyn a Paula Walters. Llongyfarchiadau iddynt am eu

gwaith.

HELFA DRYSOR: Cynhelir yr Helfa Drysor Flynyddol dan nawdd Clwb Gweithgareddau'r Pentref nos Sadwrn, Mehefin 20fed. Y trefnwyr eleni yw Mr a Mrs Eryl Davies, Bryn Madog, (Llanberis 870807) a cheir bob manylion am y trefniadau ganddynt.

SEFYLDIAD Y MERCHED: Nos Wener, Mai 8fed, cafwyd cyfarfod yng nghwmni aelodau Cangen Menai. Croesawyd Mrs Maud Williams, Caernarfon i'r cyfarfod a than ei chyfarwyddyd trafodwyd cynnwys rhan o raglen nodwedd ar ferched enwog Cymru a gyflwynir yn Neuadd Goffa Cricieth, nos Wener, Mehefin 26ain, gan wahanol ganghennau o Sefydliad y Merched. Bydd Cangen Menai a Brynrefail ar y cyd yn portreadu'r Santes Dwynwen, a threfnwyd nifer o ymarferiadau ar gyfer y perfformiad a fydd ar ffurf darma, dawns a gân.

parhad ar dudalen 6



Fe dderbyniwyd y llun yma oddi wrth Mrs Nellie Valmai Pritchard. Llun a dynnwyd yn ymyl yr Hen Ysgol, Deiniolen, a oedd heb fod ymhell oddi wrth gapel Disgwylfa. Aiff y llun â ni'n ôl i'r flwyddyn 1907.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

TAC SIS

AMBERLINE

BETHEL

UNRHYW AMSER - UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93) 670555

Agor

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Ffiniau'r Gorffennol

Y DDAU FAER 1886

gan Ernest Roberts, Bangor

'Rwy'n gobeithio y mwynhewch hanes y lecsiwn ganlynol gan mlynedd yn ôl. 'Rwy'n ddiolchgar iawn i Mr Ernest Roberts, Bangor am roi caniatâd i'r hanes ddod i Eco'r wyddfa.

Dyma eiriau Mr Roberts

"Prin y bydd ethol Maer heddiw yn creu rhwyg a helynt. Fel rheol daw cynhgorydd yn ddi-wrthwynebidd i gadair y Maer ar bwys blynyddoedd ei aelodaeth o'r Cyngor. Ond nid felly y bu ym Mangor ym 1886 pan gododd gwyntoedd politics storm enbyd wrth ddewis Maer. Am gyfnod cafwyd dau yn hawlio'r anrhydedd- un yn Dori rhonc a'r llall yn Radical tanbaid.

Roedd y Tori, John Pritchard, yn gorffen ei dymor fel cynhgorydd ac felly yn gorfod sefyll etholiad os ddi rhywun yn ei erbyn. A phwy ddaeth allan i'w herio ond Mesach Roberts, y Radical. Roedd ef eisoes yn Henadur ar Gyngor y Ddinas a'i sedd felly yn ddiogel. Doedd dim rhaid iddo ymladd lecsiwn, ond yr oedd yn ysu am "fight" hefo'r Tori, John Pritchard, ac os medrai ei frwr allan o Gyngor y Dref. Am hynny daeth i lawr o ddiogelwch y Fainc Henadurol i faes y frwydr.

Haerodd John Pritchard nad oedd yn rheolaidd i Henadur ymladd lecswin, ond gwrthodwyd ei brotest gan y Maer Thomas Lewis - arweinydd y Radicaliaid. Aeth yn lecsiwn wyllt - lecsiwn ogoneddus fel y byddem yn gael erstalwm ar gynghorau cyhoeddus. Mesach Roberts, y radical, ddaeth allan ar ben y pól â 171 o bleidleisiau, a John Pritchard ar y gwaelod â 151.

Cyrnol Platt oedd y "returning officer" ac fe gyhoeddodd ef mai John Pritchard oedd wedi ennill (a does neb yn gwybod byth paham y gwnaeth y Cyrnol Platt gamgymeriad yn lle dweud yn gwir mai Mesach Roberts oedd wedi ennill). Ta waeth. Wel yr oedd y sefyllfa yn ddryus a digrif, aeth y ddau ymgeisydd yn ôl i'r Cyngor - Mesach Roberts am ei fod eisoes yn dal ei sedd gel Henadur a John Pritchard am i'r Cyrnol Platt ei gyhoeddi'n fuddugol a hynny yn gelwydd wrth gwsr.

Symudwn rwan i gyfarfod cyntaf y Cyngor ar ôl y lecsiwn. Thomas Lewis, y cyn-faer, oedd yn y gadair, a'r gwaith cyntaf oedd dewis Maer newydd. Heb ddim lol dyma Mesach Roberts yn cynnig ail-ethol Thomas Lewis, ac arweinydd y Toriaid yn cynnig John Pritchard. Rhoddodd Thomas Lewis y ddau enw, sef ei enw ei hun ac enw John Pritchard - i bleidlais y cyfarfod. Fotiodd Thomas Lewis ddim, ond fe fotiodd John Pritchard iddo ei hun. Y canlyniad oedd i Thomas Lewis gael 11 fôt; John Pritchard gael 12 fôt; ac meddai Thomas Lewis. "Toes gan John Pritchard ddim hawl i fod yma ac felly dim hawl i fotio, felly mae'r bleidlais yn gyfartal - 11 i mi ac 11 iddo fo. Fel Cadeirydd 'rwyf yn rhoi fy 'casting vote' i mi fy hun". Yna aeth ymlaen i ddiolch i'r cyngor am ei ail-ethol yn Faer. Cododd John Pritchard ar ei ôl i ddiolch i'r Cyngor am yr un anrhydedd.

Ar hyn dyma'r Clarc a'i fys yn y brŵas yn dweud, a hynny yn berffaith gywir wrth gwsr nad oedd gan Thomas Lewis 'casting vote' am nad oedd wedi defnyddio eibleidlais gyntaf. Anwybyddodd Thomas Lewis farn y Clarc a glynodd wrth

Gadair y Maer ac ymgasglodd ei gyd-radicalwyr o'i gwmpas. Symudodd John Pritchard i gadair ym mhen arall i'r bwrdd a dilynwyd ef gan y garfan Doriaidd.

Fel ymhob pwyllgor, eitem gyntaf y cyfarfod oedd cyflwyno cofnodion y cyfarfod blaenorol. Eitem ddigon ddiniwed ynddi ei hun, ond un sydd bob amser yn rhoi cyfle i'r pwyllgorwr cecrus ledi ei adennydd. Ond y tro hwn, hon oedd eitem dyngedfennol y cyfarfod. 'Roedd y Clarc rhwng Piahiroth a Baalsephon. I ba ben i'r bwrdd y cyflwynai'r llyfr cofnodion ai i Thomas Lewis ai i John Pritchard. Chware teg iddo, bu'n gyson â'i ddyfarniad nad oedd grym yn 'casting vote' Thoams Lewis, ac i John Pritchard y cyflwynodd y llyfr a thrwy hynny ei gydnabod yn Faer etholedig. Aeth yn halabylw yn y Cyngor, ac ar ol dadlau ffyrnig am deirawr gohirwyd y Cyfarfod am bythfnod ac am rai misoedd wedyn cafwyd dau yn hawlio teitl maer - Y Toriaid yn cydnabod un, a'r Radicaliaid yn arddel y llall.

Y diwedd fu i Thomas Lewis a Mesach Roberts ddwyn yr achos gerbron y "Queen's Bench" a dyfarnwyd yn eu herbyn. Aethant a'r achos wedyn i'r llys Apêl, gan ennill yno, ond apeliodd John Pritchard wedyn at Dŷ'r Arglwyddi. Buont yn gwrando'r achos wedyn am rai dyddiau a dyfarnwyd yn derfynol o blaid Thomas Lewis. Bu Mesach Roberts farw yn Llundain cyn clywed y dyfarniad.

Dathlodd Thomas Lewis ei fuddugoliaeth trwy adeiladu'r Cloc Mawr sy'n gof-golofn i Frwydr y Ddau Faer ym Mangor.

A oedd eisiau cof-golofn i ryw chwarae plant fel hyn gofynnwch? Teg iawn inni gofio mai yn ei babandod yr oedd llywodraeth leol yn 1886. Nid oedd ond rhyw ddwy flynedd er pan gafodd Bangor ei siartar dinesig, a rhyw osod sylfeini a rheolau sefydlog digon amrwd yr oedd y dynion hyn. Ond os oeddynt yn ymbalfalu i lunio rheolau, yr oeddynt yn sicr o'u hegwyddorion sylfaenol ac yn benderfynol'u cadarnhau a'u diogleu.

Saif y dyfarniad cyfreithiol a gawsant yn Nhŷ'r Arglwyddi yn un o golofnau democratiaeth. Ynddo y diffiniwyd dyletswyddau "returning officer" mewn etholiad, ac y cyfyngwyd ei awdurdod i faterion gweinyddol yn unig. Boed ef glarc - neu gyrrnol - 'doedd ganddo ddim hawl i wyrdroi canlyniad pleidlais y bobl.

Rai blynyddoedd yn ôl bellach cefais wahoddiad i fynd i annerch i Glwb y Cymry yn Lerpwl. Yr oeddwn yn falch o'r cyfle a'r

anrhydedd o gael ymweld â Chymry Lerpwl. Bu'r cyfarfod yn llwyddiant.

Llywydd y noson honno oedd Miss Ceridwen Williams, merch Mr a Mrs Cledwyn Williams, Cyn ysgolfeistr, yr Ysgol Gynradd Llanrug. Y mae Ceridwen wedi bod yn athrawes yn Lerpwl ers llawer o flynyddoedd bellach.

Gan nad oedd neb yn barod i ddysgu'r iaith Gymraeg, a llawer o Saeson yn awyddus i ddysgu'r iaith, ymgymerodd Ceridwen â'r ffurfio dosbarth Cymraeg. Erbyn hyn mae'r dosbarth wedi mynd ymlaen o nerth i nerth a Cheridwen wrth ei bodd yn gweld y dosbarth yn llwyddo. Y mae llawer o'r Dosbarth wedi ennill Tystysgrif y Lefel O

erbyn hyn yn y Gymraeg.

Yn ddiweddar cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Lewis' Lerpwl. Cafodd Côr Adrodd Merched Capel Heathfield Rd., Lerpwl y wobwr gyntaf. Ceridwen oedd wedi hyfforddi'r Cof. Cawsant Gwpan arian hardd yn ogystal â Gwobr Ariannol. Y Parch W.J. Gruffydd oedd y Beirniad. Yr oedd y darn prawf allan o Ddrama Llewelyn Fawr, Syr Thomas Parry.

Mewn cystadleuaeth yn Adran Celf a Chrefft derbyniodd Ceridwen y wobwr gyntaf am lun du a gwyn o'r Wyddfa a'r ail wobwr yn Adran Crochenwauth am fwthyn to gwellt. Hefyd bu dau o'r dysgwyr yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth Adrodd.

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

Y NEUADD GOFFA: Gwobrau Cant Mis Ebrill: 1af - rhif 93, £20 Mrs O Jones, 12 Bro Rhos; 2il - rhif 63, £10 Mrs E Jones, Glasynys; 3ydd - rhif 31, £5 Mrs E Evans, Blaen Parc; rhif 63, £5 Mr Maldwyn Hughes, Ty'n Llan; rhif 78, £5 Mrs Gwyneth Hughes, Cae Rhos; rhif 21 £5, Mrs Lynwen Morris, Llys Myfyr; rhif 24 £5, Mrs Nora Parry, 11 Tanybuarth; rhif 9 £5 Mrs F Owen, Bryn Teg; rhif 131 £5 Mrs G Owen, dŵo Bryn Teg.

Mewn pwyllgor o'r Neuadd a gynhaliwyd ar 18ed Fai, 1987 penderfynwyd cario ymaen â'r Clwb Cant, os oes unrhyw un â diddordeb mewn ymuno â'r clwb a fuasech cystal â chysylltu â Myfanwy Jones, Glan Gors, Bethel (ysgrifennydd). Gobeithir defnyddio elw'r Clwb Cant i adnewyddu'r Neuadd. Yn y pwyllgor penderfynwyd gwneud ymholiadau ynglŷn â sut y gellir gwella'r cyfleusterau. Pan fydd cynlluniau wedi eu paratoi gelwir cyfarfod cyhoeddus i drafod mater.

LLONGYFARCHIADAU: I Bethan Fôn, Bro Dawel, Rhoslan ar ennill yr ail wobwr yn y gystadleuaeth unawd dan 8oed yn Eisteddfod Pwllglas, Rhuthin.

DISGO AT Y SGANIWR: Nos Wener Mai 1af, trefnwyd disgo yn y neuadd gan Glwb y Mamau. Cafwyd noson dda a gwnaed elw o £44.70 tuag at Apêl y Sganiwr.

YSGOL FEITHRIN: Erbyn hyn mae cartref newydd yr Ysgol Feithrin yn barod a'r Ysgol yn brysur yn trefnu y symud o'r Neuadd. Er bod y Neuadd wedi bod yn gartref hwylus i'r ysgol ers dros 7 mlynedd, mae edrych ymlaen garw ar gael symud i'w cartref eu hunain.

PRIODI: Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Diane Vise, Cefn Rhos ar ei phriodas â Mr Michael Wyn Thatcher, Caernarfon. Bydd y ddau yn cartrefu yn Brynaerau, 3 Corra Linn.

YN 18 OED: Dymuniadau gorau i Richard Sharpe, Ael y Bryn fydd yn dathlu ei benblwydd yn 18 oed ar Fehefin 28ain.

YR URDD: Ers mis bellach mae'r rhai sydd yn mynd i Ferthyr wedi bod yn brysur yn casglu arian tuag at fynd i'r Eisteddfod a hefyd yn ymarfer. Aeth nifer o'r aelodau ar daith drwy'r Chwarel o Ddinorwig i Nant Peris ar Fai 8ed. Cafwyd noson ddifyr iawn a chasgliad anrhydeddus yn dilyn noddol aelodau y côr deulais dan 15 oed. Nos Wener Mai 22, cafwyd noson o gân a chremlog a dydd Llun Mai 25 aeth nifer o'r aelodau'r côr adrodd ar daith noddedig i ben yr Wyddfa. Bydd aelodau eraill yn mynd ar daith feicio noddedig ac eraill ar ddistawrwydd noddedig. Dymuniadau gorau i'r ddau gôr a hefd i Angharad Price a Meinir D. Williams fydd yn cystadlu ar y ddeuawd Gerdd Dant dan 18 oed a

Non Jones fydd yn cystadlu yn y gystadleuaeth Cân wreiddiol dan 15 oed.

ARHOLIADAU PIANO: Llongyfarchiadau i Ceryl Roberts, Non Llewelyn Jones ac Angharad Elis ar eu llwyddiant yn yr arholiadau cerdd theori yn ddiweddar. Mae'r dair yn ddisgyblion i Mrs Heulwen Williams.

MERCHED Y WAWR: Bu'r cyfarfod misol yn yr ysgol nos Fercher gyda Mrs Lynwen Morris, Llys Myfyr, yr is-lywydd yn llywyddu. Daeth aelodau o gangen Rhostryfan ar ymweliad a chafwyd noson hwyllog o gân a chwis. Diolchwyd gan Mrs Mair Price, 5 Tan-y-Cae. Rhoddwyd y lluniau gan aelodau'r pwyllgor, ac enillwyd gwobr y raffl gan Mrs Anne Elis. Croesawyd Mrs Eryl Roberts, Bryn Rhedyn, yn ôl ar ôl gwaelodd, a chydymdeimlo â Mrs Jones, Isfryn, a'r teulu yn eu profedigaeth. Llongyfarchwyd yr ysgrifennydd, Mrs Betty Owen, a'i gŵr Seiriol, ar ddathlu eu priodas arian. Dymuniadau gorau hefyd i Mrs Olwen Evans, Parciau Rhos, ar ddod yn hen nain. Penderfynwyd trefnu taith ddirgel, a gofynnir i bawb roddi eu henwau i'r swyddogion mor fuan ag y bo modd.

LLONGYFARCHIADAU: I Mr a Mrs Seiriol Owen ar ddathlu eu priodas arian yn ddiweddar.

Bydd Mr Hugh Thomas, Bron y Gaer, Penisarwaun yn casglu at Gymdeithas y Sbastic yn y stryd Llanber ar Fehefin 12. Gobeithir am gystal casgliad a'r llynedd.

Atodiad CWM-Y-GLO

LLONGYFARCHIADAU: I Mr a Mrs Idwal Williams, Elidir View ar ddathlu eu priodas ruddem.

Dymunwn ddymunaidau da a phob llwyddiant i Dylan Morris, Stryd Newydd yn ei swydd newydd yn Llundain.

MARWOLAETH: Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mr Harri Gwyn Jones, 36 Stryd Newydd, Caernarfon (gynt o Gwm-y-Glo) yn 53 mlwydd oed. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod Mrs Mair Jones a'i fab Melfyn a'r teulu. Hefyd ei frawd, Mr Dennis JHones, Llanberis a'i chwaer yng nghyfraith, Mrs Dilys Jones, Bryn Hyfryd yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

PIODAS: Dydd Sadwrn Ebrill 18ed priodwyd Sharron Hughes, merch Mr a Mrs R. Hughes, 10 Dôl Afon â Graham Judge, Rhosgadfan. Y morynion oedd Cheryl a Megan a'r gwas Mr Sion Hibbit. Dymunwn pob dymuniad da ac hapusrwydd i'r pâr ifanc.

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

ADRAN BENTREF YR URDD: Colli fu hanes tîm pêldroed dan 13 a than 15 oed yn erbyn Bontnewydd - ond er hynny roedd yr hogiau i gyd wedi mwynhau eu hunain. Diolch i'r rhieni fu'n cludo'r plant ac yn arbennig i'r dyfarnwr Mr Selwyn Griffith. Aeth

tua 40 o'r Adran ar daith gerdded nodedig fore Sadwrn Mai 2il, dan ofal Arwel Jones. Bu'n daith hynod o ddiddorol ac addysgiadol - o Ddinorwig i Nant Peris. Diolch yn fawr i Arwel a diolch i Delyth, Elinor a Carolyn am wneud y trefniadau



"Rargian Fawr", fe gawsom noson goffi werth chweil yn Neuadd yr Eglwys yng nghwmni neb llai na'r dyn ei hun, Gari Williams. Roedd pawb o'r pentref wedi ymgynull i'w weld ef a'r Parti Dawnsio Gwerin dan hyfforddiant Mrs Bethane Williams. Cyflwynwyd blodau sidan iddi fel cydnabyddiaeth o'i llafur caled gyda'r plant. Yna bu pawb yn hael iawn yn eu poced a gwnaed elw sylweddol o £212. Carai Pwyllgor

Adran Bentref yr Urdd ddiolch o galon i Gari am agor y noson inni ac i bawb o'r pentref am eu cefnogaeth.

Roedd y tywydd tipyn mwy ffafriol eleni i'r 32 o blant a'r 7 rhiant a aeth i Wersyll yr Urdd yng Nglanllyn. Profodd un neu ddwy o'r rhieni eu bod yn rwyfwr cychod heb eu hail! Pob hwyl i Caitlin Wroe gyda'r nofio, a'r Parti Dawnsio Gwerin yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Merthyr.



Parti Dawnsio Gwerin gyda'u hyfforddwraig Mrs Bethane Williams a'r dyn ei hun, Gari Williams.

GWELLHAD: Gobeithio'n wir fod Mrs Nix, Talsarnau, a Miss Gwyneth Owen, Minffordd a Mr Nathan Jones, Brynhyfryd yn gwella wedi triniaeth yn yr ysbyty. Deallwn fod nifer o'r pentref wedi bod yn sâl - brysiwch fendio i gyd.

PWYLLGOR NEUADD: Fe dynwyd Clwb Cant mis Mai yn Sycharth, Bryn Eglwys. Tynnir Clwb Cant Mehefin yn neuadd yr Eglwys, Meh. 22. Gobeithir trefnu Barbaciw fel gweithgaredd mis Mehefin - yng ngerddi Pant Hywel.

DIOLCH: Dymuna Mrs Gwyneth Jones, 25 Bryntirion ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd wrth symud i'w chartref newydd.

YSGOL SUL BOSRA: Cynhlaifyd Cymanfa'r Annibynwyr a'r Methodistiaid, ddydd Sul, Ebrill 27ain. Carai'r athrawon ddiolch i'r plant am wneud eu gwaith mor ragorol yn y ddwy gymanfa. Bydd trip yr Ysgol Sul eleni eto yn mynd i Rhyl, ddydd Sadwrn Gorffennaf 4ydd. Pris £2 i oedolion a £1 i blant nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul. Enwau rhag blaen os gwelwch yn dda i Mrs Elizabeth Jones.

EGLWYS SANTES HELEN: Bydd y trip yn mynd i Rhyl, Sadwrn. Gorff. 4ydd. Enwau os gwelwch yn dda i Mrs Ann Paterson, 1 Bryntirion.

GYRFAOEDD CHWIST: Bydd y gyrfaoedd y mis hwn yn cael eu cynnal nos Wener, Mehefin 5ed, ac yna Nos Fawrth, Mehefin 16ed. Os oes rhywun â diddordeb mewn dysgu chwarae chwist estynnir croeso i ddysgwyr i ddod i'r neuadd am 7.00 o'r gloch nos Wener, Mehefin 5ed er mwyn trefnu noson arbennig.

EISTEDDFOD BENTREF: Cynhelir yr Eisteddfod yng Nghapel Glascoed, Nos Wener, Meh. 19eg am 5.30 pm. Mae'r testunau ar werth gan aelodau'r Pwyllgor ac ar werth yn Siop Gron am 20c. Y Llywydd eleni fydd un o blant y fro sef Mrs Myra Hughes, Treffynnon (Cae Corniog gynt). Y mae'r plant eisoes yn brysur yn dysgu'r gwahanol eitemau ac i unrhyw oedolyn sydd â diddordeb mewn cefnogi'r Eisteddfod - fel aelod o barti Canu neu adrodd, bydd y cyfarfod Nos Lun, Mehefin 1af, yn Neuadd yr Eglwys am 7.00 p.m. Croeso cynnes i bawb.

CLWB YR HEULWEN: Mai 19ed,

cafwyd paned a sgwrs ynghyd â Bwrdd Gwerthu. Rhoddwyd y te gan Mrs J May Jones a Mrs Percy Williams. Diolchwyd iddynt gan Mrs G. Jones. Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Katie Williams, Mrs M Thomas, Miss Gwyneth Owen a Mr Evan Hughes. Enillwyd y raffl gan Mrs M Davies. Cynhelir y cyfarfod nesaf Mehefin 16.

CARTREF NEWYDD: Pob dymuniad da i Mr a Mrs P Williams, Llwyn Derw gynt, yn eu cartref newydd yng Nghaernarfon. Croeso cynnes i'n plith i Mr a Mrs Brian Roberts a'r plant, Llwyn Derw, Gwen ac Elis Wyn Griffith, Tai Arthur, Mr a Mrs Harding, Erin a Cenin, Winllan, a Gwynfor ac Alison, Bryntirion, a phob dymuniad da i Mrs Gwyneth Jones yn 25 Bryntirion.

LLONGYFARCHIADAU: Pob dymuniad da i Delyth Evans, Gors a ddatlodd ei phenblwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Er mor fusneslyd eu byd yw Maggie Post a Harri Parri ym Mhobol y Cwm, fe achosodd Arwel a Carys ddipyn o benbleth i'r ddau ar y rhaglen "Cymar Pwy?" Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch.

YSGOL TAN Y COED: Creoso cynnes i Siôn Llywelyn, 'rwy'n siwr y bydd yn hapus yn ein plith. Bu dosbarth Mrs Thomas a Mrs Evans yn gweld perfformiad o "Brensiach y Bratia" yn y Coleg Normal Bangor. 'Roedd y plant i gyd wedi mwynhau eu hunain. Byddy Babanod Uchaf a Safon 1 yn mynd i weld "Swyn y Blodau" yn Ysgol y Gelli, b'nawn Mercher, Meh. 3ydd. Bydd Trip yr Ysgol yn mynd i Sŵ Bae Colwyn, ddydd Iau, Gorffennaf 9ed.

CARNIFAL: Gobeithir cynnal gweithgareddau'r Carnifal o ddydd Sul, Gorff. 5ed - 11eg, gyda noson gymdeithasol mewn gwesty cyfagos yn Awst.

Brynrefail parhad

Ddydd Llun, Mai 11eg, bu Carol Houston a Betty Owen mewn ysgol undydd, ar lwyfannu ac arddangos cynnyrch, yn y Waunfawr.

Nos Fawrth, Mai 12fed, daeth cynulliad o'r aelodau ynghyd i drafod cyfraniad cangen Brynrefail i'r gystadleuaeth flynyddol, "Cwpan Rhosynau", sydd yn gystadleuaeth ragbaratoawl i'r un gynhelir yn Sioe Amaethyddol Llanelwedd. Cafwyd trafodaeth frwd a bywiog a chaed syniadau buddiol ar gyfer paratoi cyflwyniad ar y thema "Blas ar Fwyd Iach".

Nos Iau, Mai 14eg, yng Nghyngor Gwanwyn Sefydliad y Merched ym Mhwlheli, cyflwynwyd cwpan i Mrs Pat Jones a Mrs Carol Houston, llywydd ac ysgrifennydd y gangen am eu llwyddiant yn y gemau badminton a gynhaliwyd dan nawdd Sefydliad y Merched Arfon yn

ddiweddar.

Dydd Sadwrn, Mai 16eg mynychwyd Ysgol Ddrama Undydd yn Ysgol Segontium gan Jennie Hughes, Jennie Roberts, Carol Houston, Betty Owen ac Euronwy Roberts.

Llywyddwyd cyfarfod misol o'r gangen nos Lun, Mai 18fed, yn absenoldeb y llywydd gan Mrs Rhian Jones. Talwyd ymweliad gan Mrs Maud Williams, VCO i drafod cynigion a gyflwynir i'r Cyfarfod Blynnyddol Cyffredinol yn Llundain ar Fehefin 4ydd. Gwnaed elw o £13 ar stondin moes a phryn er chwyddo chyllid y gangen a rhoddwyd lluniaeth y noson gan Mrs Jennie Roberts a Mrs J Maxwell. Bydd trip dirgel yn ystod mis Mehefin a bydd y trefniadau yng ngofal y llywydd. Cafwyd gwybodaeth mai mewn arlunio dyfiriw y bydd y dosbarthiadau nos sydd i'w cynnal yn ystod y gaeaf nesaf. Byddant yn dechrau ym mis Hydref.



STRYD FAWR, DEINIOLEN Ffôn Llanberis 871210

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.

A dewis rhagorol o Fideos i'w benthyg Hefyd yn Siop

FFYN A CERRIG, STRYD FAWR, LLANBERIS

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

**CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR**

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.



DEWIS EANG O WELAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

MR BASTOW

Gan nad oedd cloch na 'nocar' ar ddrysau'r tai yn Rhesdai Gwyrfaei aeth Mr. Bastow ati i wneud 'nocar' o'i ddyfais ei hun, - darn o bren cnotiog o'r coed - tua maint coes morthwyl, a'i grogi wrth linydd wedi'i hoelio'n y drws. Otano roedd cyfarwyddiadau wedi'u sgrifennu'n fras ar gerdyn -

KNOCK LOUDLY SIX TIMES,

I MAY BE AT THE BOTTOM OF THE BACK GARDEN.

O chwylfrydedd - a diawledigrwydd - mi benderfynod rhai ohonon ni'r hogia roi prawf effeithiolrwydd y ddyfais newydd, ac mi gerddon i fyny at y drws a gwneud yn union fel yr oedd y cerdyn yn deud. Pan ddaeth Mr. Bastow i'r drws dyma ni'n gofyn yn wylaidd a gostyngedig am oleuni ar y neges, "Wat dys ddy card se, Mistar Basto?"

Mi edrychodd arnon ni am funud a gwên fach gynnill yn chware o gwmpas ei geg - roedd o'n 'n dallt ni i'r dim!

"It says what it means, and it means what it says," medda fo gan gau'r drws yn araf a'n gadael ninna' i weithio allan athroniaeth a oedd yn newydd sbon i ni.

Byddai babanod mewn pram un torri allan i grio pan welent Mr. Bastow am y tro cyntaf (a doedd hynny'n rhyfedd yn y byd!) a rhai dipyn yn hŷn yn rhedeg am 'u bywyda' oddi wrtho pan ddeuai'n agos; ond buan iawn y deuent i gynefino ag o ac i ymuno â'r lleill i redeg tuag ato yn hytrach nag oddi wrtho. Yr un modd gydag anifeiliaid, yn gŵn a chathod. Ambell gi yn rhuthro amdano gan gyfarth yn ffyrnig, 'Bow-wow-wow!' a'r hen Bastow'n ateb yn ôl, 'bow-wow-wow,' mewn llais tyner a charedig, ac yn mynd ymlaen i sgwrsio â'r ci yn ei iaith ei hun. Ffarmwr yn dod i lawr hefo'i drol a chasge i nôl llwyth o lo o iard John Wmffras yn y stesion - stesion Rheilffordd yr Ucheldir. Fel roeddau nhw'n mynd i mewn i'r iard pwy oedd yn dŵad allan ond rhen Bastow hefo'i drol fach. Mi stopiodd y gaseg yn stond yn ei hunfan, a symuda' hi'r un fodfedd nes 'i fod o wedi pasio. Deodd hi 'rioed wedi gweld y fath drychiolaeth!

Mae'n debyg mai ei ymddangosiad batriarchaidd a barai i rai pobl gredu bod Mr. Bastow yn dipyn o broffwyd hefyd. P'run bynnag am hynny, mae'n ffaith iddo ryw ddirwnod, yn nechrau'r dau ddegau, aros ar y ffordd i sgwrsio â mam ifanc oedd yn mynd â'i baban bach allan am dro yn y pram. Dechreuodd ei holi ynghylch y plentyn -

"Boy or girl?"

"Boy," atebodd y fam yn llawn balchder.

"Pity," meddai fo, "pity....just right for the next war." - a cherddodd ymlaen i gyferiad Mynydd Cefn Du. Proffwyd...? Dwn i ddim, ond mi wn mai'r bachgen bach hwnnw oedd un o'r rhai cyntaf o'r Waun i'w

alw i'r fyddin pan dorrodd y rhyfel allan ym 1939.

Yn achlysurol byddai Mr. Bastow yn gosod rhyw hanner dwsin o frics ar 'i gilydd i wneud lle tân yn yr ardd gefn, yn cynnau'r tân coed, ac yn berwi llond sosban haearn fawr o gymysgfa o gawl neu swp, ac yna'n gwahodd holl blant y lle i'w fwyta hefo fo. Ta beth oedd ei gynnwys roedd o'n flasus dros ben. Ac nid plant yn unig a gâi wahoddiad i Rhif 5 am damaid. Cafodd dwy ferch ifanc o'r fro, aelodau o Eglwys Sant Ioan fel yntau, wahoddiad yno i swper ryw nos Sul. Buont yn hir yn 'sad-gysidro' beth i'w wneud; ond doedd dim ffordd allan ohoni, ac yn hytrach na brifo teimladau'r hen ŵr dyma benderfynu'i mentro hi. Croeso mawr! Tywallt coffi, a'r ddwy'n llygadu'i gilydd gan ddal 'u gwynt a dyfalu be nesa, ond yn cael gollyngdod na fuo rotsiwn beth o weld Mr. Bastow'n estyn tun mawr o fiseddi Lipton ac yn ei osod o'u blaen.

Bob blwyddyn byddai Mr. Bastow yn trefnu Parti Nadolig i'r plant yn ei dŷ. Bocsus o orennau wedi'i gosod wrth 'i gilydd oedd y bwrdd, a bocsus llai i eistedd arnyd nhw. Roedd yn rhaid i bawb fod yno'n brydlon am hanner awr wedi tri. Wedi i bawb setlo i lawr ar ei focs deuai'r bara brith allan - dyna'r prif gwr. 'Slab Cake', a dyna'n union oedd o - slab mawr sgw)) fel sêr car. Torrai ddarn bron cymaint â hanner bricsen ar gyfer bob plentyn, a'i lygaid yn pefrio tu ôl i'w sbectol trwy gydol y seremoni. Dewis o de neu lemonêd, afal, oren - neu'r ddau - i orffen. Wedi clirio'r danteithion, i fyny'r grisau â ni i weld y 'Sioe Magic Lantarn.' Lamp oel, wrth gwr, a honno'n chwydu allan gymyla' o fwg du, drewllyd. Pob

drws a fenest wedi'i cau - fu erioed y fath dagu a gollwng dagra'. Pawb yn dyheu am dipyn o awyr iach ac ar y diwedd yn 'i baglu hi i lawr y grisau' ar garlam dros y tunia corn biff a ffa; ond pawb wedi mwynhau ei hun yn ardderchog, a neb yn fwy felly na'r hen Bastow ei hun.

Yn ystod y flwyddyn neu ddwy olaf gwelid dirywiad amlwg yn ei gyflwr a daeth Marie, ei ferch, yno i geisio'i berswadio i symud ati hi i Lundain fel y gallai gadw llygad ac ymgeleddu tipyn arno. Mi ildiodd o'r diwedd ac mi aeth i Lundain, ond yn gwbl groes i'w ewyllys. Cyn pen wythnos daeth y newydd fod Mr. Bastow ar goll a heddlu Llundain yn chwilio amdano. Daethpwyd o hyd iddo 'mhen rhyw

dridiau - yn ôl yn Rhif 5, Rhesdai Gwyrfaei!

I bobl y tu allan i'r cylch, 'hen gr'adur rhyfadd' oedd Mr. Bastow, ond i'r rhai ohonon ni a gafodd gyfle i'w nabod mi fasa 'gŵr rhyfeddol' yn well disgrifiad o lawer. Fel roedd o'i hun yn 'wahanol' felly hefyd y mae carreg ei fedd ym mynwent y Betws, o faen ac o gynllun gwahanol i bob carreg arall. Dyma'r cofnod sydd arni -

In memory of

T.C.V. Bastow

Who died 14th August 1933

Aged 83 years

'Blessed are the merciful'

I'r dim, ddwedwn i - 'Gwyn eu byd y rhai trugarogion.'

Emyr Jones, Caernarfon

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

APÊL DAER I'R AELODAU

Ar ôl dechrau ysgubol ddwy flynedd yn ôl mae presenoldeb yng nghyfarfodydd y Gymdeithas Hanes wedi graddol edwino o gyfarfod i gyfarfod. Bellach mae dyfodol y Gymdeithas mewn perygl dybryd. Mae'n natruiol fod amrywiaeth o gyfarfod i gyfarfod a bod rhai yn fwy poblogaidd na'i gilydd. Ond drwy'r cyfan bu patrwm o leihad cyson a gyrhaeddodd ei benllanw ar nos Fercher, 20 Mai pan na chyrhaeddodd neb ond pedwar o swyddogion y Gymdeithas i'r Helfa Hanes a ddechreuai yn Llanrug, na'r Cyfarfod Blynnyddol yn Y Waunfawr. Gan fod cworwm y Cyfarfod Blynnyddol yn 15 aelod, methwyd ei gynnal ac fe'i haildrefwyd ar gyfer **Nos Fercher, 17 Mehefin, yn Y Ganolfan, Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen (tua 9.00 p.m.)** Bydd hyn yn dilyn y cyfarfod a drefnwyd eisoes, sef Taith yn olrhain **Datblygiad patrwm anheddau plwyf Deiniolen yng nghwmni Dafydd Orwig. Dechreuau'r daith tu allan i Dafarn Gors Bach, Llanddeiniolen am 6.30 p.m. gan orffen yn Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen.** Os bydd hi'n bwrw cynhelir y noson gyfan yn Ysgol Gwaun Gynfi.

Os na fedrych ddod ar y daith a wnewch chi plis ddod i'r Cyfarfod Blynnyddol. Mae angen ethol dau swyddog newydd, er enghraifft.

Rhaglen gweddill y flwyddyn yw:-

Gorffennaf ac Awst

Gweithgareddau i'w trefnu o fewn pob pentref gan aelodau'r Gymdeithas.

Medi 16 7.30 YSGOL GYNRADD LLANRUG

Sgwrs ar destun o'i ddewis ei hun gan John Roberts Williams, Llanrug.

Hydref 21 7.30 Y GANOLFAN, DINORWIG

Bric a Brac. Yr aelodau i ddod ag eitemau diddorol i'w trafod eu hunain neu ddysgu amdanynt oddi wrth eraill. Yn dilyn bydd sgwrs gan Elen Wyn Jones, Dinorwig.

Tachwedd 18 7.30 Y GANOLFAN WAUNFAWR

"Agweddau ar Fywyd Gwerin" - Trefor M. Owen, Cyn-Guradur Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd.

Rhagfyr 16 8.00 YSGOL GYNRADD CWM-Y-GLO

Dathlu'r 'Dolig' - enghreifftiau o fwydd, diodydd, addurniadau, anrhegion ac ati Y Nadolig. Y noson yng ngofal Mair Read, Bethel a John Owen Huws, Y Waunfawr. Manylion pellach yn Eco'r Wyddfa mis Rhagfyr.

Ionawr 20 7.30 NEUADD YR EGLWYS, PENISARWAUN

Darlith ar "Y Porthmyn" gan Twm Elias, Mynydd Nefyn.

Chwefror 17 7.30 YSGOL GYNRADD BETHEL

Sgwrs gan Rol Williams, Y Waunfawr. Gweler Eco'r Wyddfa mis Chwefror am fanylion pellach.

Mawrth 16 7.30 YSGOL GYNRADD CWM-Y-GLO

Noson yng nghwmni aelodau Cwm-y-Glo.



Teithiau Dwyfor Cyf.

Llanbedrog, Pwllheli, Gwynedd

Tel. (0758) 740748

HYDREF 17-24 1987

**6 Diwrnod
llawn yn**

PARIS

**GWESTY MOETHUS GWIBDEITHIAU
DYDDIOL (yn y pris) Y CYFAN AM £169**

Plant dan 14 oed £125

Cysylltwch â ni yn awr i sicrhau lle

0758 740748



**CRIB
COCH**

**Y SGWÂR, LLANRUG
Ffôn Caernarfon 76772**

**TRIN GWALLT I BAWB
O'R TEULU GAN JEN**

Ffoniwch neu galwch i drefnu amser

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W O Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

DIOLCH: Dymuna Mrs Irene Williams, 12 Rhos Faenol, Deiniolen, ddiolch i'w holl deulu, cymdogion a ffrindiau am y llu caridau a blodau a gafodd traroedd hi yn ysbyty Dewi Sant, Bangor yn ddiweddar. Diolch hefyd i'r meddygon a'r staff yn Ward Gwynedd.

Dymuna Goronwy Lewis, 18 Rhydfadog, ddiolch o galon i'w gymdogion, ffrindiau a'r teulu am bob caredigrwydd a gafodd ar ôl bod am driniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd diolch am y cardiau a'r galwadau ffôn. Diolch i Staff Ward Ogwen ac hefyd i gwmni Teledu'r Tir Glas. Diolch i bawb.

Dymuna Miss Kathleen Jones, Prenteg, Deiniolen ddiolch i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau ymhell ac agos am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ati yn ei phrofedigaeth lem a sydyn o golli ei ewythr. Diolch am yr holl gardiau a'r llythyrau a gafodd. Maent yn rhy niferus i'w hateb yn bersonol, felly a wnaiff pawb dderbyn ei diolchgarwch llwyr. Diolch yn arbennig i Mr a Martin Worth, Niagra am eu help arbennig yn ystod ei phrofedigaeth. Diolch hefyd i'r Gweinidogion canlynol am eu gwasanaeth ddydd yr angladd, y Parch Trefor Lewis, Parch Stanley H Williams, Parch Eifion Wyn Williams, Parch Ifor L I Williams, a'r cyn-brifathro G R M Lloyd, Bangor. Diolch hefyd i Mr Myrddin Pritchard, Llanberis am ei wasanaeth trylwyr. Dymuna Lena A Rowlands 12 Pentre Helen, ddiolch yn garedig iawn i'w pherthnasau a'i ffrindiau am y cardiau, a'r galwadau ffôn a'r dymunaidau da a dderbyniodd ar ei llwyddiant yn cael ei phenodi i fod yn Sister ar Ward Seiriol, Ysbyty Gwynedd.

BEDYDD: Dydd Sul, 10 Mai, bedyddiwyd Heledd, merch Mr a Mrs Gwyn Parri, Cynefin, yn Eglwys Ebeneser. Gwasanaethwyd gan y Parch W R Williams, Y Felinheli.

PENODIAD: Yn ddiweddar, cafodd John Wyn Roberts, mab hynaf Mr a Mrs John Roberts, 47 Rhydfadog ei benodi'n Bennaeth ysgol newydd "Colwyn Height", Bae Colwyn, Clwyd sydd i agor mis Medi nesaf. Hydera Mr Roberts a'i briod Janice a'u tri plentyn symud i'r ardal i fyw maes o law. Pennaeth ysgol Higher Wych, ger Whitchurch, Clwyd yw Mr Roberts ar hyn o bryd. Llonyferchir ef yn fawr iawn ar ei ddychafiad.

DYMUNA Mrs Priscilla Williams, Eirwen ac Alwyn; teulu y diweddar Moss Williams, Wylfa, Deiniolen ddiolch o galon i'w perthnasau, ffrindiau a'u cymdogion am y

llythyrau, cardiau a phob mynegiant o gydymdeimlad o golli priod a thad annwyl. Diolch hefyd i'r Parch Eryl Blainy a'r Parch Trefor Lewis.

PLAID CYMRU: CLWB 100; Mis Mawrth - £10 Miss Iris Rees Jones, 18 Hafod Olau; £8.50 Mrs Eirlys Williams, 3 Pentre Helen; Mis Ebrill - £10 Mrs Gwladys Jones, 18 Hafod Olau; £8.50 Miss Marina Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig; Mis Mai - £10 Mr Gwyn Parri, Cynefin; £8.50 Mrs L M Williams, 8 Ffordd Deiniol.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fai 13eg, o dan arweiniad Mrs Rita Parry Jones y Llywydd. Darllenodd Mrs Jones y llythyr misol a darllenwyd y cofnodion gan yr ysgrifennydd. Croesawyd y wraig wadd sef Mrs Rhian Owen y V C O gan y llywydd. Cawsom noson ddiffr gyda Mrs Owen yn son am y penderfyniadau sydd i'w trafod yn y Cyfarfod Cyffredinol sydd i'w gynnal yn Llundain ym mis Mehefin. Diolchwyd i Mrs Owen gan Mrs Nancy Rowlands. Rhoddwyd y te gan Mrs J Eirlys Williams a Mrs Beti Wyn Davies. Enillwyd y raffl gan Miss Beti Williams. Llonyfarchwyd Mrs J Eirlys Williams am ennill y wobr gyntaf am wneud brawddeg allan o'r gair Eisteddfod. Llonyfarchwyd hefyd Miss Delyth Ann Price merch Mrs Diana Price, Tros y Waun am gael ei gwneud yn frenhines y Carnifal. Bydd y Cyfarfod nesaf ar Fehefin 1af, pan fydd Mrs M E Jones gyda ni i son am dri chymeriad hynod.

YR URDD: Hoffem ddiolch ar ran plant yr ysgol fydd yn cystadlu ym Merthyr Tydfil am gefnogaeth yr holl bentref yn eu hymgyrch i godi arian. Diolch hefyd i'r siopwyr am fod mor hael yn ein cefnogi fel arfer. Diolch yn fawr i bawb.

MARWOLAETH: Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, ar Chwefror 11eg, 1987 yn 77 mlwydd oed, bu farw Mrs Jennie Marion Jones, 51 Pentre Helen, Deiniolen, annwyl wraig Gruffudd Thomas, a mam dyner, Dafydd Cole a Heddwen. Nain hoff Sian, Dylan, Julie ac Emlyn, a chwaer Gwladys Young, Lerpwl. Yr oedd yn enedigol o Ddinorwig, yn un o saith o blant, Mr a Mrs David Evans, Gwynfryn, Dinorwig, Steward yn Chwael Dinorwig. Bu'r angladd ddydd Sadwrn Chwefror 14eg lle y cynhaliwyd y gwasanaeth yng Nghapel Ysgoldy. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion Stanley H Williams, Idris Davies a Trefor Lewis, ac yn dilyn ym mynwent St Helen, Penisarwaun. Dymuna teulu Jennie Marion Jones ddiolch i bawb am bob

arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

SEINDORF: Enillwyd Clwb 200 y Seindorf Fis Mai - 1. £20 Kelfin Williams, Arfon House; 2. £15 Mrs Meira Jones, 1 Pentre Helen; 3. £10 Sioned Evans, Tai Gweledfa.

PÊLDROED: Nos Lun, Mai 11ed cafwyd gêm gyffrous rhwng tîm bechgyn ieuanc Deiniolen â thîm Bethel, ar gae chwarae Deiniolen. Hon yw'r gêm gyntaf i'r hogia chwarae adref, a daeth llawer o bobl y pentref allan i'w gweld, er ei bod yn noson wlyb iawn. Deiniolen oedd y buddugwyd o naw gôl i bedair ac wrth weld y sgôr hwn, bitî ynte na fuasai'r cae yn cael ei drin iddynt gael chwarae adref yn amlach. Fel rhieni mae dyled fawr gennym i Elfed Williams ac Eurwyn Jones am yr oriau y maent yn dreulio gyda'r plant.

APÊL Y SGANIWR: Y Nôd oedd £3,200.

Annwyl Gydardalwyr,

Braint a phleser yw cael cyhoeddi i ni gyrraedd y swm osodwyd ar ein cyfer a gwella arno, y cyfanswm terfynol yw £3,511. 30c. Amrywiol fu'r ymgyrchoedd er sicrhau y swm anrhydeddus yma. Buom yn ffodus yn ein ysgrifenyddes, Mrs Clarise Roberts, y Bull a'i chriw o ferched selog a gweithgar. Mawr yw ein clod a'n diolch iddynt. Gwerthfawrogi hefyd gyfraniad Dinorwig o £114 a diolch i bawb a gyfrannodd mewn llawer dull a modd tuag at yr Apêl.

Yn gywir adiolchgar ar ran y pwyllgor,

Hugh Jones,
Trysorydd

D.S. Y mae'r Apêl yn awr wedi ei chau, gellir anfon cyfraniadau unigol pellach i Swyddfa Apêl y Sganiwr, Ysbyty Gwynedd, Bangor.

PWYLLGOR APÊL EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, 1990: Tri chynnyg i Gymro meddir. Yn y gobaith y ceir amgennach cefnogaeth ar yr ail gynnyg, ac yn ymwybodol o ddiddordeb arbennig y pentrefwyr yng ngweithgareddau'r Urdd, cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus arall yn Neuadd y Ganolfan am saith o'r gloch, **nos Fercher, 10 Mehefin**. Yn y Cyfarfod byddir yn ethol Pwyllgor Apêl Lleol i hybu Eisteddfod Dyffryn Nantlle ac Arfon, 1990. Gosodwyd targed o £3,000 ar gyfer Clwybont a Deiniolen a chan na fynnem fel pentrefwyr fod yn fyr o gyrraedd y targed hwnnw, pwysir ar i bawb sydd â diddordeb wneud ymdrech i ddod i'r Cyfarfod. Gwerthfawrogi awgrymiadau a syniadau tuag at gyrraedd y nod uchod.

YMWELD Â MYNWENT RHYFEL



Mr Ronnie Williams yn ymweld â bedd ei dad yn yr Eidal.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Megan Humphreys, LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs John Humphreys, Caer Maen ar ddathlu eu Priodas Euraidd, dydd Sul, Mai 17. Priodwyd Mr a Mrs Humphreys yn Eglwys y Plwyf Llanrug, a'r rheithor y Parch D Morris Jones yn gweinyddu.

Pob bennid i'r dyfodol iddynt - iechyd a hoen i gyd-deithio ymlaen eto fel y gwnaethant yr hanner-can mlynedd aaeth heibio.

Y mae eu hunig blentyn, Dr David John Humphreys - cyn ddisgybl yn Ysgol Brynrefail, yn byw yn Llundain ac yn ddarlithydd yn y Royal Veterinary College, Llundain.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Keith Roberts, Awelfor ar enedigaeth geneth fach, chwaer i Beverley a Kelly. Ganwyd yr eneth fach yn Ysbyty Dewi Sant ar Fai 14eg. Pob dymuniad da i'r baban bach a'i theulu.

BEDYDDIO: Pnawn Sul, Mai 17 yng Nghapel Tan-y-Coed, bedyddiwyd Mathew James Bent, ail fab Mr a Mrs

Barry Bent, 6 Tai Maesgerddi, gyda'r gweinidog, y Parch John Morris yn gweinyddu. Dymuniadau da i Mathew a'i rieni, a'i frawd Charles, aelod ffyddlon o'r Ysgol Sul.

CYMANFA: Dydd Sul, Mai 3, prynhawn a nos, cynhaliwyd Cymanfa MC Dosbarth Caernarfon yng Nghapel Croesywaun, Waunfawr.

Yng nghyfarfod y prynhawn gwobrwywyd a ganlyn o Ysgol Sul Tan-y-Coed am eu llwyddiant yn yr Arholiad Llafar:

Dan 5 oed: Margaret Sian Pritchard; **Dan 6 oed:** Kelly Louise Roberts, Steven Prys Williams, Justine Sarah Williams; **Dan 8 oed:** Llion Wyn Pritchard; Beverley Ann Roberts; **Dan 11 oed:** Jonathan Prys Williams; **Dan 12 oed:** Aled Parry; **Dan 14 oed:** Annwen Parry.

Yn yr hwyr gwobrwywyd a ganlyn am eu llwyddiant yn yr Arholiad Ysgrifenedig:

Dan 9 oed: Beverley Ann Roberts; **Dan 14 oed:** Annwen Parry; Mark Wyn Jones; Tudor Wyn Jones; John Wyn Jones, Aled Parry.

Sylwch ar ein cyfeiriad newydd . . .

J M JONES
A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol,
Cerrig o bob math ar gael.

Ffôn: Caernarfon 2898 (dydd)

Y Felinheli 670124 (nos)

Am waith

PEINTIO, ADDURNO

a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

ATGOFION MEBYD NOFIO'N AFON SEIONT

Hanner can mlynedd a mwy yn ôl, nid oedd unman yn fwy adyniadol i ni, hogiau Pontrhythallt na'r afon o'r Bont i'r Rheadr a'r tir cyfagos rhwng y ddwy Reilffordd, un y Chwarel a'r L.M.S.. Arferem chwarae i "lawr lein" ac ar lan yr afon drwy'r flwyddyn, gwlyb ein traed neu beidio, ond nofio yn yr haf oedd y prif atyniad, heb ddisgwyl am droad y rhod fel y dymunai ein mamau.

Llyn Garreg Fawr, gyferbyn â'r allt Tyddyn Rhythallt, oedd ein prif bwl nofio. I fynd yno gallem ddilyn cwrs yr afon bach o ymyl Capel y Bont, heibio i Lyn John Owen a chroesi'r criw, yr argae garw o gerrig adeiladwyd ar draws yr afon gan ffurfio'r llyn. Nid tasg y dylid ei gwynebu ar amser dŵr mawr oedd croesi'r criw, gan mai ein rheol ni oedd gwneud hynny heb ddiosg ein hesgidiau a neidio o garreg i garreg. Gofynnai am amgylchiadau neilltuoel ac ystyriaeth cyn dileu y rheol a thynnu am ein traed gan groesi ychydig yn is na'r criw. O ble tybed, y daeth y gair 'criw' am weir y Saeson? Efallai ei fod yn gyfyngedig i'r ardal, ni chlywais ei ddefnyddio ar ôl gadael Llanrug. Er ein bodyn awr yn ddiogel ym mhlwyf Llanddeiniolen; rhaid oedd croesi ffrwd y felin cyn cyrraedd ein pwl nofio. Gellid neidio drosti mewn un man yn unig, lle yr oedd carreg go fawr ar un lan. Os na ellid neidio oherwydd ieuencid neu rhyw nam, gofalodd rhywun, rhywdro amdanon gan adeiladu pompren o hen sleepers rheilffordd ar draws afon y felin dipyn yn is i lawr.

Ond ein ffordd arferol o fynd at y llyn oedd y llwybr o'r Pandy gyda rheilffordd y Chwarel i'r Felin Uchaf, fe'i caewyd ers blynyddoedd.

Cyn cyrraedd y Felin, croesem y rheilffordd o Lanberis i Gaernarfon bron yn yr un fan lle y rhedai'r ffrwd o Lyn John Owen dani. Sicrhodd hogiau'r Bont fod tyllau yn y muriau mewn mannau cyfleus i ddringo drostynt. Gallem, pe dymunem, ddringo dros y ddau lidiart mawr yn nes at y felin, un bob ochr i'r bariau, gyda rhybudd dwyieithog cwmni'r L. & N.W.R. ynglŷn â thresbasu arnynt i'n hatgoffa o'n pechodau.

Lle da i ymdrochi oedd Llyn Garreg fawr yn y dyddiau hynny. Ffurfiwyd y llyn gan yr argae gerrig a chlytiau llechfaen ar eu hochrau i sicrahu cyflenwad o ddŵr i droi Melin Isaf Thomas Jones ac arweinai afon y felin o'r llyn. Arferem ddysgu nofio yng ngheg yr afon yn hytrach nag yn y llyn, gan fod y dŵr yn fâs yno gyda dwy

garreg gyfleus, rhwng y rhai y gallem ymarfer. Golygai hyn hefyd nad oeddem, tra'n dysgu ar ffordd y rhai mwy profiadol. Fel babanod yn dysgu cerdded; cropian oedd y cam cyntaf, rhoi'n dwylo ar wely'r afon a cheisio cadw ein traed mor agos i'r wyneb ag oeddyn bosibl. Gallem ddysgu cicio a symud tra'n cadw un llaw bob yn ail ar y gwaelod. Daeth cael "cegiad" yn beth cyfarwydd a chynyddem mewn hyder bob dydd. Nid oedd unrhyw ddysgu ffurfiol ond byddai cyfle i wlyo'r hogiau mawr yn gymorth a deuai gair o gyfarwyddyd ambell dro. (Ymwelai rhai nofwyr profiadol a gwir dda â'r Llyn yn achlysurol, y nofiwr gorau a gofiad oedd Hudson Roberts, Hudson Siop Newydd, yr oedd yn wir arwr ym myd nofio i ni yr hogiau bach.

Wedi graddio ac yn medru nofio ci am ychydig lathenni, symudem i'r Llyn. Fel y disgrifia'r enw, mae carreg fawr yn y dŵr ar ochr Llanddeiniolen ac wrth ei hochor isaf, mewn dyfnder dŵr o tua tair troedfedd, ymledai clwt o raeon am tua deuddeg llath, lle delfrydol i ddysgu nofio gyda'r graean braf rhwng bodiau'r traed. Nofio ci yn gyntaf fyddai'r drefn; mae'r enw yn disgrifiad da o'r symudiadau, gan ddilyn gyda ein ffurfiau ni o'r broga, y breast stroke a nofio ar yr ochr. Pur annhebyg oedd y rhain i'r ffurfiau swyddogol ond gallai hogiau'r Bont i gyd nofio yn nechreu'r tri degau. Wir wedi dysgu yn yr afon, daeth yn hawdd i ni ddod yn nofiwr go gywir o ran arddull beth bynnag, wedi tipyn o ymarfer ymhellach ymlaen.

Dyfnha'r dŵr ger pen y garreg, rhwng pedair troedfedd a hanner a phum troedfedd efallai yn yr haf a'r dŵr yn isel, y trwyn yn naturiol oedd ein henw arno. Y gamp gyntaf oedd nofio o gwmpas y trwyn, ac wedi llwyddo i wneud hynny, neidio i'r dŵr dwfn ac o'r diwedd plymio i'r llyn gan osgoi "boliad" a thorri'r dŵr gyda'n dwylo a'n pennau fel divers go iawn. Un o ragoriaethau'r garreg oedd dau dwll ynddi lle y gorffwysai sodlau pob plymiwr yn

gyfforddus. Ymhellach yr oedd agennau ar ochr a throed y garreg ger y lan fel pe'n bwrpasol i ddal sebon, canys dyma ein baddon hefyd yn yr haf. Ar nos Wener cyn gwibdaith yr Ysgol Sul yn arbennig, dylfai ewyn y sebon i lawr afon y felin! Yma hefyd ger y lan y nofiai sildynau, silidons i ni, a brithylliaid y don ddi-rifedi. Sonir am hyd mewn pwl nofio, yr oedd hyd gennym ninnau, o'r garreg fawr i garreg go helaeth oedd o dan y dŵr yn uwch na'r criw a rhyw ddwylath o lan yr afon ar dir Tyddyn Rhythallt. Mwynhawyd llawer i sbel bach arni cyn cychwyn nofio yn ôl. I ddiosg a gadael ein dillad defnyddiem garreg fawr arall yn y tir gwyllt gyferbyn â'r un yn y dŵr. Gallai tipyn o haul ein denu i nofio yn gynnar ar y tymor, er nad oedd dŵr wedi cynhesu rhyw lawer. Golygai hyn fynd i'r dŵr yn noethlymun a heb dowel i sychu, felly yr arfer oedd hel eithin o'r tir gwyllt a chyneu tân ar y garreg i gynhesu tipyn os nad i sychu. Ni chredaf i'r un ohonom ddiodef unrhyw anhwylder oherwydd y troeon y gorfu i ni wisgo amdanom yn greaduriaid go wlyb.

Fel coron ar y cwbl, o amgylch y lan tyfai myrtwydd gors, rhaid oedd cerdded trwy'r llwyni, gyda'r arogl pêr i gyrraedd y garreg. Llyn Garreg Fawr fu ein cychfan am wythnosau yn yr haf, ac wrth edrych yn ôl dros y blynyddoedd, annodd yw peidio a chredu mai haf hirfelyn oedd pob un. Nid yn unig yn yr haf chwaith, yr oedd rhyw swyn cyfareddol yn y fan i ni. Os dyma ein hoff bwl yr oedd gennym byllau eraill.

Wedi dod yn nofwyr profiadol, arferem ar adegau ymdrochi yn y Llyn Du Bach, (Cyn i'r Bwrdd Afonydd, flynyddoedd yn ôl erbyn hyn, glirio rhannau o'r afon.) Yr oedd ynys go helaeth ynghanol y pwl yn is na'r bont gyferbyn â thir Penbont Bach a thu ôl i'r siop. Nid oes ond safle Penbont Bach ar ôl erbyn hyn. Y Llyn Du oedd rhwng yr ynys a Phenbont Bach a'r Llyn Du Bach yr ochr arall i gyfeiriad y rheilffordd. Pyllau dwfn oedd y rhain a thipyn o dro yn nŵr y Llyn Du. Nofwyr mentrus a ymdrochai yno ac nid oes gennyf gof am neb yn gwneud, ond ar adegau defnyddiem y Llyn Du Bach. Golygai hyn blymio i ddŵr dwfn, dŵr dros ein pennau, nofio a dychwelyd i'r ynys, nid oedd siawns roi troed ar y gwaelod. Efallai mai nid pyllau natruiol oedd y rhain, tybed a effeithiodd adeiladau'r rheilffordd a'r pontydd ar gwrs yr afon yma?

Gosodwyd cerrig gwastad ar wely'r afon o dan y pontydd ac yr oedd cyflenwad o feini ar ôl i ni allu neidio o uni'r llall i gyrraedd yr ynys o ochr y rheilffordd yn ddigon di-dramgwydd. Ni arferem groesi na dilyn y rheilffordd er mwyn mynd i'r ynys, yn hytrach disgynem at lan yr afon a thrwy symud yn dra gofalus ar silff o gerrig tua naw modfedd o led ac ychydig o fodfeddi uwchlaw'r dŵr aem o dan y ddwy bont, anaml y deuai anffawd a traed gwlyb. Gallem hefyd groesi o dan y bont a gariai'r rheilffordd dros yr afon a hynny yn droedsych. Un dull oedd eistedd ar gadwyn a grogai wrth ben y dŵr, gafael yn y trawst haearn uwchben a symud ymlaen er dirfawr draul ar din y trowsus. Deuai'r prawf pan gyrhaeddem y canol, gan y disgynai bar o'r trawst, trwy dwll yn yr hwn y rhedai'r gadwyn, rhaid oedd amgylchynu'r bar cyn cychwyn ar yr hanner arall. Os am groesi'r afon, wynebem ddwy gadwyn arall. Llawer mwy diddorol oedd dringo i'r cuddfannau rhwng y ddau drawst yn nhyrrau maen y bont. Melys fyddai seiadu a rhannu ambell Woodbine yn y mannau cyfyng hyn a alwem ni y pobdy.

Cawsom lawer o hwyl yn ac ar lan yr afon. Cofiaf i fy nghyfaill pennaf, bryd hynny, Ifan Williams, Glanfa bryd hynny, ond yn awr yn byw yn Bryn Gro, Ffordd Glanffynnon, benderfynu adeiladu cwch. Ifan oedd y cynllunydd a minnau fel rhyw helpar. Cofiaf ei lansio yn yr afon bach yn Gors Twm Huws fel y galwem hi. Ni fu rhyw lawer o lwyddiant yno, ond wedi dipyn o ail gynllunio, fe nofiodd yn eithaf da yn y dŵr llonydd yng ngwaelod Llyn Du. Efallai y buasai Ifan yn gallu rhoi mwy o'i hanes. Beth amdani, at rifyn nesaf yr Eco yr hen gyfaill?

Ofnaf nad oes modd mynd i "lawr y lein" mwyach. Bum yn Llyn Garreg Fawr rai blynyddoedd yn ôl, teimlwn fel tresbaswr, teimlad hollol newydd yma. Drylliwyd peth o'r criw, nid oes angen afon y felin mwyach. Safai'r hen garreg droedfedd o leiaf yn uwch o'r dŵr. Oddi yno y tynid dŵr i ffatri Ferodo a gwaherddid nofio. Teimlwn yn wrthodedig a chan gofio y dyddiau dedwydd gynt a'r hen gyfeillion diddan daeth geiriau Goronwy Owen i'm cof:

"Y lle bum yn gware gynt Mae dynion na'm hadwanyaent; Cyfaill neu ddau a'm cofiant, Prin ddau, lle'r oedd gynnu gant."

Meurig Owen, Llundain

W.H. JONES

TRYDANWR

**Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS**

**FFÔN:
LLANBERIS 871470**

Contractau
Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati

Mae mwy o ddewis
nag erioed gan
**JOHN A ROBERTA
GRIFFITH**

**Y STORFA
SGWÂR LLANRUG**
Ffôn: Caernarfon 2790

Bwydydd, Llysiau,
Diodydd, Gwlân Sirdar,
Patrymau, Gweill Aero
Agored 7.30 a.m. - 6.30 p.m.
Agored tan 8.00 p.m. nos
Wener a
9.30 - 12.30 fore Sul

Archebwch dros y ffôn - fe'i
danfonwn at eich drws

**Aled
Jones**

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

**4 Bryn Eglwys
Penisarwaun**
Ffôn: Llanberis
871047



**BECWS
DEINIOLEN**

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn:

LLANBERIS 870232

**BARA FFRES A
THEISENNAU BLASUS**
Hefyd gwerthwyr
CALOR GAS

ECO'R IFANC

SIBRYDION O YSGOL BRYNREFAIL

YMWELIAD Â CHOLEG GARDDWRIAETH CYMRU: Dydd Iau, Mai 14eg ymwelodd disgyblion o'r pumed a'r chweched dosbarth, sy'n dilyn cyrsiau arholiad mewn bywydeg a gwyddoniaeth â Choleg Garddwriaeth Cymru yn Llaneurgain. Cafodd y disgyblion flas o'r math o gyrsgau a gynigir yn y coleg a syniadau am yrfaedd ym myd Garddwriaeth.

DRAMA: Nos Wener, Mai 8fed, perfformiwyd y ddrama "Lledaenu'r Newyddion" yn yr ysgol gan aelodau o'r pumed a'r chweched dosbarth. Yn ogystal cafwyd adloniant gan gôr yr ysgol a chanodd Sharon Vaughan Williams yr unawd. Rhoddwyd inni ragflas o waith y grŵp pop "Galwad Pell" sydd ar ei ffordd i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Merthyr Tudful. Pob lwc iddo a diolch i bawb a gyfranodd at wneud perfformiad o'r ddrama yn bosibl.

Y CYNLLUN CHWARAE: Bore Llun, Mai 11eg daeth Miss Doreen Blackwell i roi trafodaeth i ddisgyblion y chweched dosbarth ar y Cynllun Chwarae a gynhelir ym mis Awst. Nôd y cynllun yw i fynd a phlant lleol sydd o dan anfantais meddyliol ar dripiu dyddiol. Cafwyd sgwrs ddifys, ac o ganlyniad bydd gwirfoddolwyr o'r chweched yn cymeryd rhan yn y cynllun yn ystod gwyliau'r haf.

CYFARFOD RHINI: Yn ystod y mis daeth rhieni disgyblion y flwyddyn gyntaf i'r ysgol er mwyn cyfarfod â'r athrawon. Hefyd, cafwyd cyfarfod i sefydlu Cymdeithas Rhieni ac Athrawon.

COLLI PWYSAU: Rhaid oedd galw ar Nyrs Ceri Pierce i ddod i ddylanwadu ar ddisgyblion y chweched gan nad oedd trowsus llac yn eu plith wedi'r holl fwyta a wnaethpwyd yn ystod gwyliau'r Pasg. Bydd y nyrs yn galw bob pythefnos i gofnodi pwyysau'r disgyblion sydd am geisio colli pwyysau. Diolch yn fawr am ei chefnogaeth.

CYNHADLEDD Y GYMDEITHAS WYDDONOL

Uchafbwynt calendr y Gymdeithas Wyddonol yw'r Gynhadledd flynyddol, a gafodd ei chynnal eleni yn Neuadd Pantycelyn, Aberystwyth rhwng y degfed a'r deuddegfed o Ebrill. Mae'r Gymdeithas yn cynnig ugain o ysgoloriaethau i ddisgyblion chweched dosbarth a myfyrwyr coleg yn flynyddol a bŵm i yn ddigon ffodus i dderbyn un ohonynt eleni.

Roedd yn golygu aros yn y Neuadd am y pen-wythnos yng nghwmni y

disgyblion eraill ac aelodau hŷn y Gymdeithas o bob rhan o'r wlad a mynychu wyth o ddarlithoedd a oedd yn disgyn o dan y teitl cyffredinol 'Y Byd Ansicr Hwn'. Prynhawn Sadwrn roedd ymweliad â'r Ganolfan Dechnoleg Arall ym Machynlleth a oedd yn ddiddorol iawn. Braid yn anodd i'w deall oedd y darlithoedd ar y cyfan, gydag ambell i Athro yn syrthio i gysgu ar eu canol! Roedd grwpiau trafod yn cael eu cynnal yn y nosweithiau lle roedd pawb i fod i drafod beth roeddynt wedi ei ddysgu o ddarlithoedd y dydd. Trôdd y grŵp trafod yr oeddwn i yn ei fynychu yn gystadleuaeth frolio rhwng y darlithwyr ar pwy oedd yn gwneud y gwaith mwyaf diddorol!

Roedd yn brofiad arbennig bod mewn awyrgylch coleg er mai dim ond rhyw hanner cant ohonom oedd yn aros yno. Roedd yn lle ardderchog i wneud ffrindiau, ac fe aeth y pen-wythnos yn llawer rhy gyflym. Fe fyddwn i yn argymhell i unrhyw un a gaiff y cyfle i fynychu'r Gynhadledd yn y dyfodol, fynd heb betruso.

Manon Llwyd Evans

Diwrnod yn Ysgol Dafydd Grwbi gan Siân Emllyn Hughes (1E)

Wrth gerdded ar fore Llun gyda'm ffrind i fyny'r lôn, meddyliais am y gosb roedd Jon yn mynd i'w chael heddiw. Roedd wedi rhegi bedair gwaith yn ystod un diwrnod yn yr ysgol ddoe. Roedd Dafydd Grwbi wedi dweud y buasai'n cael y gosb bob diwrnod hyd at ddiwedd yr wythnos. Y gosb oedd cael chwip ar ei gefn o flaen pawb. Cariais fy llechen mewn darn o glwt carpiog gydag afal coch. Roeddwn ar fy ffordd i'r ysgol gyda fy ffrind, Meri.

Roeddwn yn casâu fy nillad ysgol - roedd y ffrog yn dywyll ac roedd y ffedog yn hen ffasiwn. Roedd y bŵts bach du am fy nhræd yn brifo. Roeddwn wedi bod yn eu gwisgo am flwyddyn ers pan oeddwn yn saith oed ac roeddwn yn eu gwisgo hyd heddiw.

Cyrhaeddodd Mari a fi yr ysgubor. Roedd y rhan fwyaf o'r plant wedi cyrraedd. Yn sydyn, daeth Dafydd Grwbi allan a gweiddi ar bawb i sefyll mewn llinell. Gwaeddodd ar Jon. Chwipiodd gefn Jon yn frwnt nes roedd gwaed ar ei grys ym mhob man.

Aethom i mewn i'r ysgubor ac at ein desgiau. Roedd pob desg yn ddu a'r waliau yn llawn o luniau hen athrawon a phregethwyr. Eisteddwn i ar ddesg yng nghanol yr ystafell. Cawsom Gymraeg yn wers gyntaf. Cafodd pawb hen sialc budr. Roedd rhaid i bawb ysgrifennu stori ar y llechen.

Yn yr ail wers, sef Saesneg, roedd yna lechen gyda stori ym mynd o gwmpas i bawb ei darllen. Dyma fy nhro i yn dod.



Tim yn cynrychioli Ysgol Brynrefail yng Nghyfarfod Athletau Arfon Mai 22.

Roeddwn yn bwyta fy afal a dyma Dafydd Grwbi yn gweiddi fy enw i gan ddweud "Maggie, be wyt ti'n feddwl wyt ti'n wneud yn bwyta mewn gwers?"

Atebais innau gan ddweud "Sori".

Dywedodd o yn gas wrthaf wedyn, "Ia, 'swn i'n feddwl hefyd, a darllenwch ymlaen rwan."

Aeth y diwrnod heibio yn araf nes ei bod yn amser mynd adref. Roeddwn yn falch o gael mynd adref a chael tynnu fy esgidiau a bwyta'r swper chwarel a oedd ar y bwrdd yn barod.

Digwyddiad yn Ysgol Dafydd Grebi

Deffrais yn y bore gyda cheiliog y ffarm nesaf a fy llusgo fy hunan o'm gwely cynnes a gwisgo amdanaf.

"Elin, mae'n bryd i ti godi nawr. Mae dy uwd yn oeri!" gwaeddodd mam.

"Rwyn dod nawr, mam," atebais.

Rhedais i lawr y grisiau a thwrw fy nghloes yn atsain ar y grisiau pren. Bwytais fy uwd yn araf a gwaeddodd mam o'r gegin.

"Elin, mae Marged yn dod. Mae dy gôt ar y gadair."

"Iawn, mam, diolch," atebais.

Pwysais ar y bwrdd er mwyn cael gafael ar fy nghôt. Wrth wneud hynny aeth fy llawes i'r bowlen uwd. Rhwbais hi'n sydyn gyda chadach. Roeddwn yn gwybod am reolau Dafydd Grwbi ynglŷn â bod yn lân. Cychwynnais am yr ysgol a'm côr ar fy mraich, gyda Marged.

"Wel blant, a ydych am fod yn blant

da heddiw?" gofynnodd Dafydd Grwbi gan chwifio ei wialen a gwên slei ar ei wyneb.

Rhoddodd ugain o symys i ni. Gofynnais i Marged a oedd yn eu deall, atebodd hithau, "Nac ydwyf".

Yr eiliad honno edrychodd Dafydd Grwbi arnom a dweud.

"Marged, ceisio helpu ffrind ie? Cyffyrddwch ych traed."

Trodd Marged ac edrych arnaf yn ddigalon. Pan oedd y wialen bron â'i chyffwrdd gwaeddais, "Na" dros y lle.

"Fi ofynnodd rhywbeth iddi, syr."

"Ceisio mynd yn erbyn dy Ysgolfeistr wyt ti?" meddai gan chwerthin yn gas.

"Ie, syr. Rydych yn anheg" meiddiais ddweud.

"Wel wir", meddai "dyma i chi eneth bowld ynte, blant?" Dywedodd hyn yn wawldlyd ac yna gwaeddodd: "Caiff dy ffrind guriad waeth yn awr, ac fe gei di hongian yn y fasedg."

Ddywedais iddim. Ni fedrwn edrych ar Marged yn cael ei chwipio. Cefais fy ngosod yn y fasedg ac yno yr oeddwn am awr. Teimlais yn ddigon sâl ar ôl dod ohoni ond roedd y teimlad fy mod wedi herio Dafydd Grwbi yn fy ngwneud yn well. Cefais longyfarchiadau gan bawb o'm ffrindiau cyn mynd adref am ateb Dafydd Grwbi'n ôl a sefyll i fyny iddo. Nid yw Dafydd Grwbi yn neis iawn gyda mi ddim mwy, ond rwy'n falch o ddweud nad ydwyf yn poeni llawer.

Lois Pritchard 1E



Tim Pêdroed Ysgol Gynradd Llanrug, enillwyr y Gynghrair i Ysgolion Lleol am yr ail flwyddyn yn olynol.



22 BRYNTIRION

PENISARWAUN

Ffôn:
Llanberis

870145

**Gwasanaeth 24 awr – pell ac agos
Gwasanaeth Maes Awyr
a Phorthladd
Gwaith Contract**

**TAC SIS
WEBB**

**SIMNEIAU GWael? CRACIAU?
MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?**

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAF LUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

CYMANFA YSGOLION SUL DOSBARTH PADARN

Cynhaliwyd y Gymanfa pŵn a nos Sul, Mai 3ydd, 1987 yng Nghapel Ysgoldy, Clwtybont. Arweinydd y gân oedd Mr Irfon Ellis, Llanberis a'r organydd oedd Mr John Griffith, Capel Ysgoldy. Llywyddwyd cyfarfod y prynhawn gan Miss E E Griffiths, Cefnywaun, gyda phlant Ysgol Sul Disgwylfa yn cymryd y gwasanaeth agoriadol a Miss Olwen Bryn Roberts, Dinorwig yn rhoi annerchiad i'r plant. Mr Emyr Williams, Ysgoldy a lywyddodd gyfarfod yr hwyr gyda'r Parch Trefor Lewis, Deiniolen yn cymryd y gwasanaeth agoriadol. Yn ystod cyfarfod yr hwyr cafwyd eitemau gan Genod Tŷr Ysgol ac Athrawon Ysgol Sul Cysegr.

Dyma'r rhai fu'n llwyddiannus yn yr Arholiad Llafar:

Dan 4 oed: 1. Ifan Rowlands, Cysegr; Stephen Elidir Keller, Disgwylfa; Mark Anthony Evans a Mari Williams, Capel Coch. **Dan 5 oed:** 1. Robin Gwyn Owen a Sioned Catrin Davies, Cysegr; Alaw Mai Hughes ac Owain Gethin Williams, Cefnywaun. **Dan 6 oed:** 1. Meilyr Emrys, Gerallt D Hughes, Bethan Williams, Catrin Roberts, Llinos Mair Williams, Laura Millican, Vanessa Brown, Kelly Williams a Dewi Griffiths, Cysegr; 2. Gwynfor Jones, Gareth Jones ac Anest Williams, Cysegr; 3. Richard Henry Jones, Disgwylfa. **Dan 7 oed:** 1. Rhian Wyn Davies, Brynrefail; Dyfan P Ellis, Richard Charles Parry, Dafydd Tomos Jones, Rhys Lloyd Jones, Elin Angharad Roberts, Ellen Jones a Lowri Williams, Cysegr; Elfed John Williams, Disgwylfa. 2. Bethan Ffowc Williams.

Dan 8 oed: 1. Carwyn John Morris a Rhodri Roberts, Cysegr; Sarah Pepper, Capel Coch; 2. Gethin J Davies, Cysegr; Eleanor Gray Williams, Capel Coch; 3. Julie Ann Jones, Cysegr. **Dan 9 oed:** 1. Nia Jones, Andrea Louise Brown a Catrin Angharad Hughes, Cysegr; Manon Williams, Capel Coch; 2. Gwenan Elis, Cysegr. **Dan 10 oed:** 1. Sonia Lynne Roberts, Llinos Angharad Morris a Donna Marie Williams, Cysegr; 2. Sam D Williams a Llinos Ann Roberts, Cysegr; 3. Elena Williams, Disgwylfa; 4. Nia Elin Davies a Richard Roberts, Cysegr; 5. Euros Williams, Cefnywaun.

Dan 11 oed: 1. Leah Millican, Menna D Williams a Julie Ann Jones, Cysegr; Owain Gwyn, Marian Jones a Nicola Houston, Brynrefail; Euros Williams, Cefnywaun. 2. Catrin Keller, Disgwylfa.

Cydarrodd dan 9 oed: 1. Parti Gwanan; 2. Parti Julie. **Cydarrodd dan 11 oed:** 1. Parti Nia Elin.

Dan 12 oed: 1. Manon Elis, Ruth W Parry, Esyllt Môn Jones, Bethan Jones a Sioned Owen, Cysegr; Jacinta Kisalu, Capel Coch. 2. Gwawr Williams, Cefnywaun. **Dan 13 oed:** 1. Eira Wyn Evans, Brynrefail; June Marie Williams, Jean Williams a Mared W Sutherland, Cefnywaun; Ceryl Roberts, Mandy Williams a Haf Owen, Cysegr. **Dan 14 oed:** 1. Catrin Gwyn, Brynrefail; Dylan Williams, Cefnywaun; 2. Gwen Jones, Cysegr; 3. Paula Walters, Brynrefail. **Dan 15 oed:** 1. Elwyn H Parry, Angharad Elis a Carys Owen, Cysegr.

Cydarrodd dan 16 oed: 1. Parti Cysegr. **Dan 50 oed:** 1. Mrs Nan Owen, Cysegr; 2. Mrs Nora Parry a Myfanwy Jones, Cysegr. **Cydarrodd dan 50 oed:** 1. Parti Athrawon Cysegr.

Arholiad Ysgrifenedig;

Dan 9 oed: 1. Catrin Angharad Hughes, Cysegr; 2. Gwenan Elis, Cysegr.

Dan 11 oed: 1. Donna Marie Williams, Cysegr; 2. Llinos A Morris a Sonia Lynne Roberts, Cysegr; 3. Nia Elin Davies a Richard Roberts, Cysegr. **Dan 14 oed:** 1. Mared Wyn Sutherland, Cefnywaun.

Carai'r pwyllgor ddiolch i bawb a gymerodd ran mewn unrhyw fodd i wneud y Gymanfa yn un llwyddiannus.

OWAIN BEBB CYFRIFYDD SIARTREDIG

O'r cyntaf o Fai 1987 bydd Owain Bebb yn gweithredu fel Cyfrifydd Siartredig annibynnol efo canghennau yng Ngherrigydrudion, Pwllheli a Caernarfon
Swyddfa Leol, Stryd Bangor, Caernarfon (Ffôn: 5916)

Gwasanaeth trylwyr Gymraeg
CYFRIFYDD SIARTREDIG - CHARTERED ACCOUNTANT

TÎM PÊLRWYD YSGOL LLANRUG



Tîm Pêlrwyd Ysgol Gynradd Llanrug - colli yn rownd derfynol Twrnameint Ysgolion y Cylch a gynhaliwyd ym Montnewydd.

EU DEWIS I FFILMIO



Sion Gardiner



Euros Wyn

Dewiswyd Sion Gardiner, Bryngwyn; Gwion a Rhodri ap Llwyd, Llanrug, ac Euros Wyn, Waunfawr i gymryd rhan yn y ffilm o'r ddrama "Ac eto nid myfi" gan John Gwilym Jones, Groeslon. Bydd y ffilmio yn digwydd yn ystod mis Mehefin, gyda Sion Humphreys, Tan y Coed yn cynhyrchu.



Gwion ap Llwyd



Rhodri ap Llwyd

TARIAN Y CYNGHRAIR



Gethin Parry, capten tîm pêldroed dan 12 oed Llanrug yn cael ei gyflwyno â Tharian y Cynghair gan Mr Bobby Haines ar Gae Eithin Duon. Yn y cefndir mae Ysgrifennydd y Cynghair, Mr Noel Williams. Mwy o'r hanes ar y dudalen ôl.

GOLYGYDD NEWYDD "ECO'R IFANC"

Nan Humphreys o Bant Bryngwyn, Tan-y-Coed, Llanrug fydd yn gyfrifol am dudalen "Eco'r Ifanc" o hyn ymlaen. Bydd yn falch o unrhyw gymorth gan ieuencid y fro, a hoffai dderbyn awgrymiadau gan blant a phobl ieuanc ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei weld ar y dudalen. Bydd hefyd yn cysylltu â'r gwahanol ysgolion er mwyn gwneud trefniadau ar gyfer dechrau'r flwyddyn ysgol newydd fis Medi.

APÊL - ENILLWYR EISTEDDFOD YR URDD

Daw yr Eco o'r Wasg yng nghanol wythnos Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Merthyr Tydfil. Nid yw'n bosibl i ni drefnu i ffotograffwyr yr Eco dreulio'r wythnos yn y de!, felly apelwn am luniau a gwybodaeth am gystadleuwyr ac enillwyr - ar y llwyfan neu yn yr adrannau cartref. Anfonwch at Nan Humphreys, Pant Bryngwyn, Llanrug. (ffôn Caernarfon 5668).

AR WERTH

Pram 'Silver Cross' fel newydd, hefyd crud gwial i fabi ifanc.
Ffôn Llanberis 8709735

SELWYN MORRIS

Adeiladwr a Threfnydd
Angladdau

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2841

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir

PEN-BLWYDD HAPUS i Darren Owen, 15 Dol Elidir, Llanberis, sydd yn 4 oed ar Fehefin 5ed. Oddi wrth Mam, Dad, Nain, Taid, Andrew, Nerys, Peter, Llinos, Nain, Chris, Anne, Kevin, John ac Emma.

PEN-BLWYDD HAPUS, pob hapusrwydd a bendith i Catrin (Plas Tirion) ar ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar 26ain o Fai.

LLONGYFARCHIADAU i Timothy Ward, 4 Maes Padarn ar ei ben-blwydd ar y 3ydd o Fehefin yn 18 oed.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Roedd nos lau, Ebrill 30 yn noson arbennig iawn oherwydd ein bod yn dathlu pen-blwydd y Sefydliad yn 60 oed.

Aeth aelodau a gwahoddedigion i Westy Padarn Lake i ddathlu'r achlysur, gyda gwledd ardderchog wedi ei darparu ar ein cyfer. Difyr iawn oedd gwrandio ar amryw o'r aelodau yn dwyn atgofion a hanesion difyr o'r blynyddoedd a aeth heibio.

Penderfynwyd i fynd i Gyngor y Gwanwyn i Bwllheli ar nos lau, Mai 14.

I ddiweddau y noson cafwyd cwis wedi ei drefnu gan Mrs Katie Griffith a Mrs Glenys Jones. Rhoddwyd y diolchiadau gan Mrs Nan Owen a Mrs Mair Jones.

DIOLCH: Dymuna Cledwyn Jones, Minffordd, ddiolch o galon i'w deulu a ffrindiau yn Llanberis a'r cylch am y llu cardiaid a phob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ato tra yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dyfod adref.

DYMUNA Mrs Iola Sellers, 13 Dol Elidir ddiolch i bawb am bob caredigrwydd a phryder a dddangoswyd tuag ati hi a'r teulu tra bu ei wyres bach Stephanie yn Ysbyty Gwynedd.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i'r rhai canlynol sydd yn wael unai yn yr ysbyty neu gartref:

Mr Cledwyn Jones, Dol Peris Bungalows; Mr Paul Fleming, 58 Dol Elidir; Christopher Carr, Maes Padarn; Mrs Annie Mary Jones, Stryd Newton; Mr Selwyn Pritchard, Stryd Newton; Mrs Nellie Williams, Stryd Newton; Mrs Awen Addie, Stryd Newton; Jonathan, mab bach Maldwyn a Lyn Jones, Stryd Newton; Lucie a Jack, plant bach Barry a Helen Thomas, Stryd Newton;

Mr Wilbert Davies, Rock Terrace; Mrs Nellie Cameth, Henryd, Stryd Olgra; Mair Roberts, Stryd Warden (Mair coed); Mr William John Roberts, Rhianfa; Mrs Winifred Owen, Stryd Warden; Mrs Susie Roberts, Dol Eilian; Islwyn Pritchard, 56 Dol Elidir; Mrs Clark, Blaen Ddol; Mr Gwilym Jones, Maes Padarn; Lorraine Williams, Stryd Ceunant; Mr Wyn Jones, Delfryn, Ffordd Capel Coch; Mr William Jones, Dreflan, wedi torri

ei goes; Mr William Roberts, Ffordd Capel Coch; Mr Michael Pritchard, Ffordd Capel Coch; Mr Bobby Lucas, Stryd Fictoria; Mrs Arvon Evans, Stryd Fawr ar ôl damwain i'w choes; Keith Parry, Noddfa, Stryd Fawr; Mrs Sally Roberts, Stryd Fawr wedi torri ei choes; Mrs Lee, Plastirion Bungalows;

Lisa ac Aled Jones ar ôl cael damwain; Andrea Roberts, Stryd Goodman; Meira Willis, Maes Padarn; Mrs Dorothy Thomas, 25 Dol Eilian; Mr John Jones, 1 Ffordd Capel Coch; Miss Morfydd Williams, Stryd Newton; Mrs Grace Wheldon Jones, Ffordd Capel Coch; Iwan, mab bach Menai a Melvyn Pitts.

PEN BLWYDD: Llongyfarchiadau i Mrs Eirlys Ellis, 12 Rhes y Cae ar achlysur ei phen-blwydd yn 50 oed yn ddiweddar.

I Mrs Phyllis Jones, 60 Dol Elidir ar ei phen-blwydd hithau yn 50 oed;

I Pat Pitts, 53 Dol Elidir ar ei phen-blwydd yn un-ar-hugain oed ar Fai 23;

I Alison Roberts, Rock Terrace ar ei phen-blwydd yn un-ar-hugain;

Ac i Menai Pitts, gynt o Faes Padarn, ar ei phen-blwydd hithau yn un-ar-hugain oed.

CYDYMDEIMLO: Ein cydymdeimlad dwysaf â'r rhai canlynol yn eu profedigaeth:

Mrs Jennifer Hughes, 10 Stryd y Dŵr ar golli ei thaid yn Ynys Mon; Mr Butler, Dewi, Michael a Colin ar golli gwraig a mam sef Mrs Myfanwy Butler, Snowdon View;

Mrs Pugh, Stryd Siarlot, ar golli ei modryb;

Mrs Joan Vaughn, Stryd Yankee ar golli ei mam;

Mr Harry Roberts, Stryd Fawr ar golli ei fam;

Mrs Agnes Williams, Stryd Siarlot, ar golli ei chwaer yng Nghaernarfon; Mrs Betty Humphries, Nant Peris a'r teulu oll ar farwolaeth Mr Owen Humphries, Nant Peris.

PRIODI: Llongyfarchiadau i'r ddau bâr isod ar achlysur eu priodas ar Fai 16 yn Eglwys Sant Padarn.

Eric Wyn Jones, Caernarfon ac Eirian Morris, merch Mrs Nellie Morris, 54 Dol Elidir, Llanberis.

a Keith Owen Price, Groeslon ac Alicia Mary Starky, merch Mrs Meira Starky, Stryd Fawr, Llanberis.

PRIODI: Llongyfarchiadau i Dylan Morgan, Bangor a Beti Huws, merch Mr a Mrs J H Huws, Tan-y-Clogwyn, Llanberis ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

PEN-BLWYDD HAPUS: Llongyfarchiadau i Ian Torr ar ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ar Fai 21.

CERDDOROL: Llongyfarchiadau i Mr Gareth Wyn Jones, 27 Dol Elidir ar ei lwyddiant mewn arholiad canu'r

piano Gradd 4 dan nawdd Coleg Cerdd y Drindod, Llundain.

GWIBDAITH CLWB ERYRI

Cynhelir gwibdaith flynyddol Clwb Eryri ar Ddydd Sadwrn, Mehefin 27ain o amgylch ardal Eifionydd ac Ardudwy. Erfynnir ar i'r aelodau i gyd wneud pob ymdrech i ddod ar y wibdaith a rhoi gwybod o'u bwriad i Eurwyn Lloyd Evans, Carwyn, Bryngwyn, Llanrug (ffôn Caernarfon 4989) cyn Mehefin 20ed.

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt Erw Wen (Caernarfon 670726).

LLONGYFARCHIADAU i Eirian Roberts, Sea View ar basio ei 2il Arholiad Telyn gyda Merit.

LWC DDA i bawb o bobl ifanc y pentref sy'n sefyll arholiadau yn ystod yr wythnosau nesaf.

LLONGYFARCHIADAU: I Andrew Williams, 2 Hen Gapel, ar ddathlu ei benblwydd yn 21ain oed ar Fai 27ain.

CYN-AELODAU CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC ERYRI A MEIRIONNYDD

Yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Madog bwriedir cael arddangosfa o hen luniau yn ymwneud â'r Mudiad yn Eryri a Meirionnydd o'r chychwyn cyntaf. Os oes gan unrhyw un luniau i'w benthyg neu eu copïo, buasem yn dra diolchgar, a chymerwn pob gofal ohonynt.

Cysylltwch ag Ellen Hughes, Fferm Rhosdican, Caernarfon.

CARTREF PRESWYL HENOED



BRON ERYRI

LLANBERIS, Ffôn: 870142 neu 870391

- Stafelloedd sengl a dwbl
- Gofal 24 awr
- Gwres canolog trwy'r adeilad
- Yr holl staff yn siarad Cymraeg
- Golygfa hardd
- Liffat at bob stafell sy' ddim ar y llawr gwaelod
- Rhagofalon tân priodol
- Lolfa teledu lliw
- Pwyntiau teledu ym mwyafrif y lloffttydd
- Bath-medic

Ymholiadau i Mr a Mrs A.W. Hughes (perchnogion)

neu Mrs. Eirian Mali S.R.N. (Metron)

AELWYD GARTREFOL

Cofrestrwyd gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd.

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas



Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO, YN ABBEY ROAD



BANGOR 354646

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, "Glanrafon", (872275).

CYMANFA'R ANNIBYNWYR: Dydd Sul, Ebrill 26ain cynhaliwyd Cymanfa Ganu Dosbarth Cwm-y-Glo yng Nghapel Jerusalem, Llanberis. Cymerwyd y rhan agoriadol yng ngwasanaeth y plant yn y prynhawn gan Mr John Huw Hughes, Llanberis. Thema eleni oedd hanes pedwar cymeriad o'r Hen Destament. Cafwyd hanes Noah gan blant eglwys Ebeneser, Joseph gan blant eglwys Bosra, Moses gan blant eglwys Jerusalem a Dafydd gan blant eglwys Nant Padarn. Diolchwyd i'r plant ac i'w hathrawon am waith canmoladwy iawn gan y llywydd y Pach Trefor Lewis. Yng nghyfarfod yr hwyr cymerwyd y rhan agoriadol gan Mr H R Jones, Llanberis. Cymerwyd rhan gan Barti Clychau'r Grug a chafwyd unawd gan Ffion Morris. Yr arweinydd yn y ddau gyfarfod oedd Mr Robert Lloyd a'r organyddion oedd Mrs Lola Evans a Mrs Hefina Ellis. Diolchodd y Parch Gwynfor Williams i'r Parti a'r unawdydd, ac i bawb am eu cyfraniad i lwyddiant y Gymanfa.

Anfonwyd cofion cynnes iawn at Mr William Roberts, ysgrifennydd y Gymanfa sydd wedi derbyn triniaeth lawfeddygol mewn ysbyty yng Nghaerdydd. Hyderwn y caiff wellhad buan ac y bydd yn dychwelyd adref yn fuan iawn. Diolchwyd i Mr Bert Thomas am fod yn barod i lewni bwlch ac ymgymeryd â gwaith Mr Roberts.

EGLWYS SANT GABRIEL: Dydd Sul, mai 10ed yn Eglwys Santes Fair, y Felinheli, confirmwyd Nia Wyn, 17 Dôl Afon, gan yr Arglwydd Esgob Bangor Cledan Mears.

BEDYDD: Yn ystod y gwasanaeth Nos Sul Ebrill 26ain, bedyddiwyd Hywyn Llŷr mab bychan Rhiannon a Hywel Jones, 138A Lôn Llanrwst, Bae Colwyn, a Gavin John, mab bychan Llinos a Michael Thomas, 24 Bro Seiont, Caernarfon. Gwasanaethpwyd han y Canon Richard Jones (Deon Gwlad).

TAITH GERDDED: Cynhelir taith gerdded am 6.30 Mehefin 8ed. Bydd lluniaeth ysgafn, stondinau a raffi yn y Ganolfan. Ceir mwy o fanylion gan Myfanwy Roberts, Bod Gwilym neu Alison Jones, Arosfa. Bydd yr elw yn mynd i Gronfa Eglwys Sant Gabriel. Croeso cynnesi bawb.

DIOLCH: Dymuna Llinos a Michael Thomas, Caernarfon ddiolch i'r teulu a'u ffrindiau am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur bedydd Gavin. Dymuna pensiynwyr y pentref ddiolch i Mr Brian Jones, Cefn Bwlch ac i'r merched fu'n dosbarthu'r ymenyn a'r caws iddynt. Diolch yn fawr.

LLONGYFARCHIADAU: I Mr a Mrs Dafydd Idriswyn Roberts (prifathro'r ysgol) ar enedigaeth eu mab bychan Iestyn Dafydd.

YSGOL GYMUNED: Cymdeithas Rhieni ac Athrawon - daeth nifer dda o rieni ynghyd yn ddiweddar i neuadd yr ysgol i dreulio noson yng nghwmni Mrs Pat Jones, Brynrefail. Daeth atom i arddangos y grefft o 'sgythru ar wydr. Cafodd pawb gyfle i weld ei dawn arbennig yn y maes, cyn rhoi tro arni eu hunain cyn diwedd y noson. Diolchwyd i Mrs Jones gan Mrs Sylfia Williams, Cadeiryddes y Gymdeithas, a chyflwynwyd ŵy Pasg wedi ei 'sgythru â siocled iddi fel arwydd o'n gwerthfrowiad. Cynhelir taith gerdded ym mhentref Brynrefail cyn bo hir a bydd gyrfu chwist ym mis Medi.

Glynllifon - aeth pedwar ar ddeg o blant y dosbarthiadau hyn i aros yng Ngholeg Glynllifon ganol Mai. Aeth Mrs Eirian Howells gyda nhw a chafwyd amser arbennig o braf yno a thywydd bendigedig.

CLWB POBOL Y CWM: Croesawyd Mr Hugh R Jones, Llanberis i'r Clwb ddechrau'r mis a mwynhawyd ei gwmni yn holi ac ateb cwestiynau amrywiol a diddorol. Mae Mr Jones yn adnabyddus fel cyn-geidwad Amgueddfa Chwael Dinorwig ac mae y llwyddiant i'w briodoli yn rhannol i'w ymdrechion arbennig ef yn y dyddiau cynnar. Diolchwyd iddo gan y llywydd Mr Llew Hughes. Gofalwyd am y baned gan Mrs R H Parry a Mrs M Williams. Rhoddwyd y raffi gan Mr a Mrs R Rowlands, a enillwyd gan Mrs G. Chick. Dyma englyn o waith Mr R H Parry i'r Clwb - Hwyllog a gwresog groeso - yno gawn

A gwir aelwyd gryo
A hen frîd gwerin y fro
Yn llawen gynnul yno.

CAPEL Y TABERNACL: Ar ôl bron i dair blynedd ar gau oherwydd dirywaid adeilad y Tabernacl, mae'r atgyweiriadau wedi eu cwblhau, ac ail agorwyd y Capel gyda'r Gwasanaeth Cyntaf dan ofal y gweinidog y Parch Gwynfor Williams. Derbyniwyd rhodd o £206.00 tuag at dreiliau y Capel trwy garedigrwydd teulu a chydabod er cof am y diweddar Mrs A J Jones, 3 Bryn Gro gynt. Dymuna y Gweinidog a'r Swyddogion ddiolch i bawb am eu haelioni.

ER COF: Ar Ebrill 21ain bu farw Mrs Anne Jane Jones, 3 Bryn Gro, yn 88 oed, yng nghartref ei mab yn Stryd yr Eglwys, Caernarfon, lle bu yn ymgartrefu am y pedair blynedd diwethaf. Gweddwyd ydoedd i'r

diweddar Tom Foulkes Jones, mam i'r diweddar Geraint Wyn Jones, a chwaer i'r diweddar Morris Wyn Williams. Fe'i magwyd yn Y Groeslon ac ardal Llanrug, yr oedd yn ferch i John a Margaret Williams, Castle View gynt. Daeth i gadw siop i Bant Afon, Cwm-y-Glo dros drigain mlynedd yn ôl, yna cartrefu ym Mryn Gro. Ar hyd y blynedd oedd cymerodd ddiddordeb mewn nifer o weithgareddau yn y pentref, sef drama, a chymdeithasau llenyddol. Bu yn aelod ffyddlon a gweithgar yn Capel Mawr, M.C., ac yn Capel Tabernacl yn y blynedd oedd diwethaf. Bu'r Angladd prynhawn Sadwrn 25ain o Ebrill, ym mynwent newydd Llanrug, wedi gwasanaeth gan y Gweinidog, y Parch Gwynfor Williams, a cymerwyd rhan gan y Parch W O Roberts, Llanrug. Rhoddwyd teyrnged yn ystod y gwasanaeth gan Mr Llew Hughes, Hyfrydle. Cynrychiolwyd Capel Tabernacl gan Mr Llew Hughes a Mr Leonard Parry. Yr organyddes oedd Mrs Eryl Roberts. Daeth nifer fawr o gymdogion a ffrindiau i'r gwasanaeth. Y Cludwyr oedd: Mr William Jones, Tŷ Coch, Y Groeslon (perthynas); Mr Dennis Jones; Mr Maldwyn Hughes; Mr Evan G Owen; Mr Leslie Orritt; Mr Alwyn Hughes. Y Galarwyr oedd: Mr a Mrs John Morris Jones; Mr a Mrs Tom Vaughan Jones; Mr a Mrs Richard Eilian Jones (meibion a'r gwragedd); Ann Jones (wyres), Elizabeth Vaughan Jones (wyres); Mr W S Parry a'r teulu, New Ferry; Mr a Mrs

Owen Jones, Bontnewydd; Mr a Mrs William Jones, Tŷ Coch, Y Groeslon; Mr Ifor Owen, Bangor; Mrs Ceinwen L Roberts, Tan y Coed; Miss Buddug Williams, Llanrug. Yr oedd y canlynol yn methu a bod yn bresennol: Y Parch Harri Parri, Seilo, Caernarfon; Mrs C Rowlands, Conwy; Miss Sian Hughes, Cwm-y-Glo; Mr Gordon Williams, Llanberis. Rhoddwyd y blodau gan y teulu, a derbyniwyd rhoddion yn ddiolchgar tuag ar achos Capel Tabernacl. Yn cynorthwyo yn y cartref oedd: Mrs Mair Williams, Cwm-y-Glo; Mrs Grace Jones, Caernarfon, Mrs Mona Roscoe, Waunfawr. Gwnaed y Trefniadau gan Mr M E Pritchard, Llanberis. Dymuna y teulu ddatgan eu diolchgarwch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli mam a nain, ofalus a charedig.

DR BARNARDO'S: Gyda diolch i'r canlynol am gasglu £20.38 at achos Dr. Barnardo's: Mrs Marjorie Roberts, Bod Gwilym; Miss Alison Jones, Arosfa, Fron Gader; Miss Caren Williams, Glanbogelynn; Miss Nia Wyn Hughes, 17 Dolafon, a Miss Carys Williams, Bryn.

LLONGYFARCHIADAU: I Carys Williams, Bryn, am fod yn llwyddiannus gyda anrhydedd yng Ngradd 3 Theori Caerrodiaeth.


CERDDOROL: Bu Catrin Gwyn, Min y Nant yn llwyddiannus mewn arholiad canu'r piano Gradd 5 dan nawdd Coleg Cerdd y Drindod, Llundain.

PLYGU'R ECO

Rhifyn Gorffennaf-Awst

Neuadd yr Eglwys, Penisarwaun, Gorffennaf 2
Nos lau am 6.00 o'r gloch

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**

Ffôn: Caernarfon 5175

Emyr Jones

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**

Cynnal Boileri, Gwaith
trin pibellau nwy,
olew, tanwydd solat.

**44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513**



GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

**Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR**

**Ffôn:
Waunfawr 552**

OSMOND SHAW DEINIOLEN

Gwerthu
a thrwsio
Teledu Lliw
Newydd ac Fel
Newydd
GWASANAETH
ATEB
FFÔN 24 AWR
LLANBERIS 870545

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL**

**GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR**

E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

O FRO'R ECO I WLAD YR ADDEWID

gan Y Parch. Trefor Lewis

Gan i Haggai fod mor garedig â chaniatáu i ni gael aros tan 9 o'r gloch y bore cyn cychwyn ein taith cafodd pawb gyfle i werthfawrogi'r olygfa o'r gwesty. Oherwydd ein bod ar lecyn gweddol uchel 'roedd gennym olygfa odidog dros Fôr Galilea; yn y pellter gallem weld Mynydd y Gwynfydau a chofio am y Cymun, Capernaum, a dacw fynydd Hermon tua'r Gogledd.

Y mae Môr Galilea yn 13 milltir o hyd a 7 milltir o led, ar ffurf telyn, ac fel y dywed Gwenallt

"Fiolyn o fôr yw môr Galilea,
Fiolyn folcanig: yn y dŵr cynnes
Yr oedd y pysgod yn bentyrrau ar
ben ei gilydd,

.....fe allai storm godi

Ar amrantiad, y glesni'n troi yn
wynder chwynn.

Y mae lefel y Môr 686 troedfedd islaw lefel Môr y Canoldir ac yn gartref i nifer o bysgod gwahanol, sy'n cael eu dal, fel yn yr hen ddyddiau, â rhwydi. Yn nyddiau Iesu, 'roedd Galilea yn groesffordd bwysig, gyda ffrwythlondeb y tir, prydferthwch y tirwedd a'r dyfroedd poeth sy'n byrlymu o ffynhonnau tanddaearol yn gyfryngau i ddenu pobl o bellteroedd i'r ardal. Ar lan y môr y dywedodd Iesu wrth Seimon, Andreas, Iago ac Ioan, "Dilynwch fi." Ar y môr yr oedd Iesu pan gododd storm, ond pan lefarodd ef, "Distewch," tawelodd y gwynt. Dro arall gwelwyd Iesu'n cerdded ar y môr.

Wedi gwrthryfel Bar Kokhba gorchymynodd Hadrian alltudio'r Iddewon o Jerwsalem. Diorseddwyd y ddinas honno fel trigfan y tadau Iddewig, gan Tiberias, a daeth y lle hwnnw yn ganolfan grefyddol ac addysgiadol yr Iddew. Yno, yn 200 Oed Crist, cyfansoddwyd y Mishna, a mil o flynyddoedd yn ddiweddarach yn 1204 claddwyd gweddillion Rabbi Maimonides, athronydd mawr ei ddydd a ffigiswr yn llys Saladin yn Cairo. Gwnaed Tiberias yn brif ddinas Galilea gan y Croesgadwyr yn 1099. Dinistriwyd y ddinas yn 1837 gan ddaeargryn. Iddewon yw'r trigolion heddiw, y rhan fwyaf ohonynt yn newydd ddyfodiaid.

Roedd pawb ar y bws erbyn 9 o'r gloch bore Llun a ffwrdd â ni i ddilyn llwybrau'r Meistr. Wedi teithio am ychydig ar hyd glan y môr troi tua'r wlad a rhyfeddu at y coed yn llawn dail a chnydau y meysydd, a hithau ond canol mis Mawrth. Cyrraeddasom bentref o'r enw Cana - yno cyflawnodd Iesu ei wyrth, neu, yn ôl Ioan, ei arwydd cyntaf.

'Roedd Iesu a'i ddisgyblion wedi eu gwahodd i briodas yng Nghana, Galilea. Dywed Ioan wrthym bod y gwin wedi darfod. Arorchymyn Iesu llanwyd dyfrlestri â dŵr a thrwy ymyrraeth goruwngnaturiol Iesu trowyd y dŵr yn win. Darllenwyd yr hanes o Efengyl Ioan Pennod 2, adnodau 1-11 gan flaenores yng Nghapel Cana, Rhostrehwfa ar Ynys Môn. Gllir gweld y capel hwnnw wrth i chi fynd tua Caergybi.

Wedi'r gwasanaeth syml yn y capel sy'n ein hatgoffa o'r wyrth gyntaf o eiddo Iesu treuliwyd ychydig amser yn prynu anrhegion megis dyfrlestri pridd a phlatiau.

Ymlaen â ni wedyn i Nasareth, rhyw bedair milltiri ffwrdd. Saif Nasareth 1230 troedfedd uwchlaw Môr y Canoldir, ac yma y dewisiodd Duw gyhoeddi genedigaeth ei Fab

Iesu. Anfonwyd Gabriel at ferch o'r enw Mair. Cred rhai mai wrth y ffynnon yr oedd Mair pan y'i cyfarchwyd gan Gabriel. Cawsom gyfle i gofio

".....am Fair gynt

Yn cerdded o ogof ei chartref i'r Fynnon:

Y piser gwag er ei hochor er ei phen,
Ac yn aros ei thro, gwraig gyffredin
ymhlith gwagedd.

Nid oedd unrhyw wahaniaeth
rhyngddi a'r gwagedd eraill:

Ond yr oedd yn ei chlust sgwrs
â'r Angel,

Yn ei chalon ddirgelion Duw:

A'r corff a roes Ei ddyndod i
Dduw."



Trafod y daith ysgytwol mewn tasci i
fyny mynydd Tabor. Eglwys y
Gweddnewidiad yn y cefndir.

Yn Nasareth daeth y Gair yn gnawd. Yno y treuliodd Iesu ei blentyndod a'i lencyndod gan dyfu i fyny i ennill ffafr gyda Duw a dynion. Nid oedd angen llawer o ddychymyg i weld Iesu'n chwarae ar lethrau'r brynau fel pob plentyn arall. Am 30 mlynedd bu'r dref hon yn gartref i Iesu, yno y dysgodd grefft y saer coed, yma bu ef a'i dad, Joseff.

"...yn gweithio

A'u hoffer hen ffasiwn; yr oedd yno
olwynion cert,

Erydr pren, trawstiau a phrennau o
bob math."

Yn nyddiau Iesu edrychai trigolion trefi eraill i lawr ar Nasareth. Cofiwn bod Nathanael, a hannaï o Cana, wedi gofyn "A all dim da ddod o Nasareth?" Wedi iddo ddechrau ar ei weinidogaeth gyhoeddus ychydig iawn o groeso a gafodd Iesu yn ei dref ei hun. Yn Luc 4, atgoffir ni bod y bobl wedi eu cynddeiriogi cymaint nes iddynt geisio ei ladd. Canlyniad ei wrthod gan ei bobl ei hun oedd i Iesu ymsefydlu yng Nghaperna.

Dinistriwyd Nasareth gan Vespasian yn 66 Oed Cist, ond yn dilyn gwrthryfel Bar Kokhba ymsefydlodd nifer fawr o Iddewon yno. Yng nghyfnod y Croesgadau tyfodd y ddinas a daeth yn llewyrchus.

Trefnodd Tancred, tywysog



"Fiolyn o fôr yw Môr Galilea."

Galilea, i'r eglwysia'r mynachdai i gael eu hail-deiladu. Cipiwyd y ddinas gan Saladin yn 1187 ond yn 1263 dinistriwyd hi eto, y tro hwn gan Bibars ac am gyfnod o 400 mlynedd y Moslemiaid oedd yn llywodraethu. Yn 1620 dechreuodd teuluoedd Cristnogol ymgartrefu yn Nasareth ac yn raddol tyfodd y ddinas, ac erbyn heddiw ymae'n un o'r cymunedau Arabaidd mwyaf yn Israel, tua 35,000 gyda'r mwyafrif yn Gristnogion.

Prif atyniad Nasareth heddiw yw'r eglwys hardd wedi ei chynllunio gan bensaer Eidalaidd, Muzio. Cynlluniodd Muzio ddwy eglwys gysylltiol, un ar y llall, er cadw adfaelion yr hen eglwys. Tu fewn gwelir murluniau o wahanol wledydd yn portreadu ymweliad Gabriel â Mair.

Wrth ffarwelio â Nasareth aethom heibio Ffynnon Mair, un o safleoedd mwyaf dilys Gwlad yr Addewid. Nid oes unrhyw amheuaeth bod Iesu a'i fam wedi mynd yno droeon i dynnu dŵr. Ar y ffordd allan tynnwyd ein sylw at fryn; dyma meddai Haggai y bryn y mae Luc yn cyfeirio ato yn y b edwardedd bennod o'i Efengyl.

Un peth sy'n taro dyn wrth deithio drwy'r wlad yw absenoldeb waliau a gwrychoedd - mor wahanol i Gymru. Wedi cyfnod o dawelwch cyfeiriodd Haggai ni at Fynydd Tabor, neu Mynydd y Gweddnewidiad. Cyfyd mynydd Tabor i uchder o 1900 troedfedd uwchlaw y môr. Oherwydd bod y mynydd yn dystiolaeth i'r Creawdwr canodd Dafydd yn Salm 89:13

"Y mae i ti fraich a chadernid:
cadarn yw dy law, ac uchel yw dy
ddeheulaw."

Yn yr hen ddyddiau ffurfiai'r mynydd ffin rhwng llywthau'r gogledd a llywthau'r de. Yma y gorchyfgodd Barac fyddin Sisera, ac y mae pentref Daburieh gerllaw yn ein hatgoffa am Debora y broffwydes. (Barnwyr 4:6)

I Gristnogion, fodd bynnag, dyma fynydd y Gweddnewidiad. Wedi cyrraedd y mynydd rhaid oedd gadael y bws a chlodwyd ni i gyd mewn 5 tasci Mercedes, gan esgyn ar hyd y ffordd gul, droellog di-glawdd, a'r olygfa drwy'r ffenestri yn peri i wallt dyn godi ar ei ben ac i farf ambell un fritho.

Ar gopa'r mynydd saif eglwys Ffransiscaidd a adeiladwyd yn 1924

ar safle hen eglwys Fysantaidd. Darllenwyd hanes gweddnewidiad Iesu, yn ôl Luc 9: 28-36, cyn cychwyn yn ôl i'r gwastadeddau. Os oedd y siwrnai i fyny yn brofiad ysgytwol roedd y daith i lawr yn waeth gydag ambell un yn cau eu llygadau.

O gopa mynydd Tabor gellir gweld dyffryn Jesreel sy'n ymestyn o fynyddoedd Galilea yn y gogledd tuag at fynyddoedd Samaria yn y de. Y mae'r dyffryn hyd heddiw'n ffrwythlon iawn, ond yn ogystal â bwydo'r genedl, yma gwelwyd frwydrau lu, yn cynnwys byddinoedd yr Hebreaid, y Canaanaid, y Rhufeiniaid, y Twrciaid, ac yn ddiweddaraf y Prydeinwyr o dan arweiniad Allenby.

Wedi dychwelyd i'r bws a chael cyfle i ddod atom ein hunain wedi'r daith yn y Mercedes, troi tua Tiberias i dreulio'n noson olaf yng Ngaleila.

"Pawb yn y bws erbyn chwarter i wyth bore yfory," meddai Haggai. "Bydd yfory'n ddiwrnod hir, a ninnau'n symud o'r gogledd i Jerwsalem."

(Sylwer - daw'r dyfyniadau o farddoniaeth Gwenallt allan o'r gyfrol 'Coed'.)

CEUNANT

LLONGYFARCHIADAU i Gwyneth a John Thomas, Bryn Awelon ar enedigath mab bychan ar Fai 17ed, Dafydd Gwyn, brawd bach i Robin Edwyn.

NEWYDD AGOR! SIOP BAENT STORFA Tŷ NEWYDD

BRWSHUS . TYRPS
POLIFFILA . BWCEDI
'HARDWARE' AC ATI

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

GWELLHAD: Dymunirgwelhad buan i Mrs Katie Parry, HafodElan,, sydd wedi dychwelyd adref o ysbyty Gwynedd. Hefyd i Mathew Thomas, mab bychan Dafydd a Gwenda Thomas, sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

LLONGYFARCHIADAU: I Aled Roberts am lwyddo yn yr arholiad ysgrifenedig o dan nawdd Cyfarfod Ysgolion Dosbarth Caernarfon yn ddiweddar. Llongyfarchiadau hefyd i Dylan Williams, 3 Rhos Rug am dderbyn medal am gasglu dros £100 tuag at y genhadaeth Wesleidd. **AR WYLIU:** Estynnir croeso i Mr Stanley Roberts, Hafod Wen, Stad Glanffynnon, sydd adref ar ei wyliau o Nairobi. Hefyd i Dewi Oliver Jones, Eryri sydd adref o Awstralia.

CYFARFOD PREGETHU: Cynhaliwyd cyfarfod pregethu Capel Mawr ddydd Sul, Mai 10ed pryd y gwasanaethwyd gan y Parch Gruffydd Owen, Abergele a'r Gweinidog y Parch John Morris.

CYFARFOD Y CHWIORYDD: Cyfarfu chwiorydd Capel Mawr nos Iau, Mai 7ed. Y llywyddoedd Mrs Jean Davies a cymerwyd y gwasanaeth dechreuol gan Mrs Nansi Roberts, Manod. Rhoddwyd y lluniaeth gan Mrs Jennie May Jones a Mrs Owen, Tŷ Fry. Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Hydref.



PRIODAS: Dydd Sadwrn, Mai 2il yng Nghapel Mawr, Llanrug, fe briodwyd Miss Gwen Oliver Jones, Eryri â Mr Elis Wyn Griffith, Tregarth. Gwasanaethwyd gan y gweinidog y Parch John Morris, yr organyddes oedd Mrs Ann Lewis, cafwyd y brecwast priodas yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis. Mae'r par ifanc wedi cartrefu ym Mhenisarwaun. Dymuniadau gorau iddynt yn eu bywyd priodasol.

PÊLDROED: Cynhelir Pwyllgor Blynnyddol y Clwb Pêl-droed yn

Ystafell y Seindorf nos Lun, 15 o Fehefin am 7.15. Gofynnir i bawb sydd â diddordeb mewn pêl-droed fod yn bresennol.

MERCHED Y WAWR: Nos Fawrth, Mai 12ed yn Ysgol Gynradd, Llanrug cyfarfu y gangen leol o Ferched y Wawr. Llywyddwyd y cyfarfod gan llywydd y gangen Mrs Menna Williams. Croesawyd y wraig a'r gŵr gwadd Maureen Rhys a John Ogwen gan y llywydd. Teitl cyfraniad Maureen Rhys a John Ogwen oedd 'Ci a Cath'. Treuliwyd noson hwyllog ddifyr yn gwrando ar gyfraniad y ddau gyda'u darnau di-gyswilt, y naill yn ateb y llall gyda darnau doniol fel Hollywood, Beddargraff Cath drws nesaf; Bisto a Marwnad Pwdl, a darnau clasurol fel Winni Ffini Hadog gan Kate Roberts, a Chwarae gan Jane Edwards.

Yna yn y rhan olaf o'r cyfarfod, cafodd y gynulleidfa gyfle i ofyn cwestiynau i'r ddau, a chael atebion diddorol yn mynegi profiadau Maureen Rhys a John Ogwen fel actorion. Diolchwyd iddynt gan Mrs Eryl Roberts. Tystiolaeth Mrs Roberts, ac yn sicr y gweddill oedd yn bresennol oedd inni gael noson werthfawr, llawn hiwmor yn gwrando ar ddau fesitrym myd actio. Wedi'r wledd mwynhawyd paned o de wedi ei pharatoi gan Mrs Katie Williams, Mrs Beryl Thomas, Mrs Enid Whiteside Thomas a Mrs Amy Smith.

Trefnir gwibdaith flynyddol y gangen ar Fehefin 9ed - taith drwy Ddyffryn Conwy a chyfle i gael cinio mewn gwesty ym Metws y Coed, yr enwau i Mrs Joan Griffith (ffôn 3248) neu Mrs Menna Williams (ffôn 4016) erbyn Mai 29ain.

YR YSGOL GYNRADD: Ar Nos Iau, Ebrill 30ain cynhaliwyd Noson Goffi arbennig o lwyddiannus tuag at gostau'r plant fydd yn cystadlu ym Merthyr Tydfil. Roedd nifer helaeth o gemau wedi'u trefnu gan y plant eu hunain a diolch am gyfraniadau pawb at y gwobrau a'r rafflau.

Enillwyr y noson oedd: Nifer y Pŷs - Mrs Beryl Griffith; Pwysau'r Gacen - Mrs. Mair Huws; Raffl Cinio Cyw Iâr - Mrs Meirwen Thomas; Raffl Offer trin gwallt - Mrs Katy Williams; Y Sgwariau Lwcus - Rhodri ap Llwyd a Mrs Charlotte Evans; Raffl gan Mr Wyn - Mrs Eryl Roberts; Sawl Llythyren? - Mrs Gwenda Roberts; Nifer y Marblis - Martin Morris; Raffl 'Airfix' - Eifion Jones; Dydd Priodas y Ddol - Sian Pritchard; Y ddau hamper fwyd - Mrs Eryl Roberts, Mrs Nancy Jones; Pa adeiladau? - Mrs Joyce Jones; Adnabod y Lleisiau - Mrs Olwen Huws; Gorffen Limrig 1. Mrs Mair Huws, 2. Mathew Wyn Williams, 3. Mr Dafydd Arfon Jones; Gêm y Synhwyrau - Mrs Heulwen Evans.

Diolch o galon hefyd am y rhoddion ariannol gan Gangen Merched y Wawr Llanrug, Cyngor Llanrug ac i Mrs Linda Jones a Mrs Mair Huws am drefnu noson gymdeithasol lwyddiannus dros ben yng Nglasgoed. Dymuna'r plant a'r athrawon ddiolch i holl bentrefwyr Llanrug a gefogodd y noson.

PLAID CYMRU: Cangen Llanrug a'r Cylch. Bydd cyfarfod y mis nesaf yn yr Ysgol Gynradd am 7.30 o'r gloch, ac nid ar Fehefin 3 fel y trefnwyd cynt. Hwn fydd y cyfarfod blynnyddol, ac annogir pawb o'n haelodau i wneud ymdrech i fod yn bresennol.

APÊL YR URDD 1990: Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus Nos Fawrth, Mai 19 yn yr Ysgol Gynradd i sefydlu pwyllgor i godi arian ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990. Cafwyd cynrychiolaeth gref o nifer o fudiadau, a chymdeithasau y pentref a dangoswyd brwdfrydedd tuag at y fenter. Cafwyd arweiniad gan Ifan Jones Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith a Geraint Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid. Penderfynwyd i ethol pawb oedd yn bresennol a'r rhai a ymddiheurodd am eu habsenoldeb i weithredu ar y pwyllgor apêl. Dyma'r enwau:

Mr Twrog Jones; Mrs Olwen Huws; Mr Goronwy Huws; Mrs Mair Lloyd Huws; Mr Gwyndaf Lloyd Huws; Mrs Jennifer Thomas; Mrs Meirwen Lloyd; Mrs Olwen Llewelyn; Mrs Eryl Roberts; Mrs Nan Humphreys; Mrs Anwen Owen; Mr Dafydd Arfon Jones; Mrs Betty W. Roberts; Mrs Joyce Jones; Mrs Margaret Jones; Mrs Emrys Owen; Y Parch John Morris; Mrs Megan Roberts; Mrs Margaret Parry; Mrs Charlotte Evans; Mrs Gwenda Ll. Griffith; Mrs Menna Williams; Mrs Iona Williams; Mr Gruff Roberts; Mrs Eirian Roberts; Mrs Meryl Green; Mrs Florence Roberts; Mrs Maureen Williams; Mrs Anwen Evans; Mrs Pat Jones; Mrs Linda Jones; Mr Hywyn Jones; Mr Meical Roberts; Mrs Ann Thomas; Miss Megan Humphreys; Mrs Carys Evans; Mrs Bethane Williams; Mr Hefin Jones; Mr Hefin Jones; Mr D. Whiteside Thomas; Mrs Joan Griffiths; Mr Ifor Williams. Cynhelir Cyfarfod Cyntaf y Pwyllgor Nos Fawrth, Mehefin 16, am 7.00 o'r gloch yn yr Ysgol Gynradd.

LLONGYFACHIADAU: I Catrin Hughes, Crawia ar lwyddo yn yr arholiad rhagarweiniol ar y piano. Llongyfarchiadau hefyd i Linda Roberts, Glasgoed Hall ar basio arholiad cwrw teipio yng Ngholeg Technegol Bangor yn ddiweddar. Dymuniadau da iddi ar gyfer y dyfodol.

Dymuna Megan Williams, Bron Eryri, Llanrug, ddiolch yn fawr iawn i bawb fu mor garedig wrthi pan fu yn cwyno yn ddiweddar.

Bydd y Daith Hanesyddol dan nawdd y Gymdeithas Undebol yn crwydro Ynys Môn, gyda'r Parch John Morris B.D. ar y 27ain o Fehefin. Enwau i'r Ysgrifenyddes rhag blaen, Mrs E. W. Thomas.

CERDDOROL: Llongyfarchiadau i Elen Wyn Roberts, 7 Afon Rhos ar ei llwyddiant yn arholiad canu'r piano, Gradd 6 a chanu'r delyn Gradd 4. Cynhaliwyd yr arholiadau dan nawdd Colwg Cerdd y Drindod, Llundain.

DYMUNA Gwen a Wyn ddiolch o galon i bawb am yr holl anrhegion a dymuniadau da a ghawsant ar achlysur eu priodas.

DYMUNA Bet, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion, a'i holl ffrindiau am eu caredigrwydd ac am y cardiau a gafodd tra yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch i bawb am bob dim, gyda diolch arbennig i'r Meddyg teulu.

Y CHWIORYDD: Cynhaliwyd Cyfarfod y Chwiorydd yn Festri Pontrhythallt, bnawn Iau, Mai 21ain. Llywyddwyd gan Mrs J Williams, Bod Fair, a chafwyd sgwrs gan Mrs E W Thomas, Dolwar ar 'Atgofion', a chafwyd sgwrs ymhellach gan Mrs M Ll. Williams ar 'George M Ll Davies', yr Heddychwyr. Rhoddwyd y te gan Mrs J Williams, Bod Fair a Mrs D Williams, Talybont.

ENILLWYR Y RAFFL FAWR: Dyma enillwyr y raffl a drefnwyd yn Ysgol Gynradd Llanrug er codi arian i fynd a chystadleuwyr i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Merthyr Tudful: 1. Alwyn Roberts, Penllyn, Brynrefail; 2. Ruth Evans, 18 Glan Moelyn, Llanrug; 3. Ann Platt, Caernarfon; 4. Llywelyn Griffith, 6 Bro Rhyddallt, Llanrug; 5. Leon Davies, Angorfa, Llanrug; 6. A Griffith, Caernarfon.

Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at y raffl ac i'r rhieni a fu'n trefnu ac yn helpu.



Priodas Derfel Jones, Llanrug a Karen Shinn, Caernarfon. Pob dymuniad i'r ddau yn eu cartref newydd ym Methel.



Hwyl y cystadlu o'r Sioe Gŵn a Geifr, Llanrug.

Merched ...
Dynion ...
Plant ...

I gael trin eich gwallt yn eich cartref cysylltwch â

SIAN

**MAIRANNEDD
LLANRUG**

**Ffôn:
Caernarfon 5366**

. Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

**YSGOL YRRU
OFALUS**

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

LLOFRUDDIAETH Y FRON CHWITH, Mai 1825

Ar ymyl y rhodfa ym mynwent Llanddeiniolen mae yna gist uchel wedi ei hamgylchynu â haearn, ac arni wedi ei dorri mae'r cofnodion hyn.

GWYDDFAN: Catherine Roberts, gwraig John Roberts, Fron Chwith, Llanddeiniolen, a fu farw 31ain o Fai 1825 yn 54 oed. Ac oddi tanynt: 'Nid pennyd clefyd a'm cloes - nid ingawl

Nod angau dolurloes

Na henaint aeth a'm heinioes,

Dyn a fu yn dwyn fy oes.'

Am fod tir y Fron Chwith yn ymylu ar yr eiddo y bu fy nheulu yn ffermio am genedlaethau, roedd hanes y Catherine Roberts yma yn wybyddus i mi ers dyddiau cynnar. Ac er fod tros gant a thrigain o flynydoedd ers ei marw, mae yna rai o hyd ar gael yn y plwyf a edrydd nid yn unig hanes ei diwedd dychrynlyd, ond hefyd yr englyn ar ei beddfaen. Cafodd ei llofruddio gan ddydd y chryman.

Roeddwn ers tro wedi bod yn deisyfu cael gwybodaeth fanylach am y digwyddiad yma, ac yn ddiweddar euthun gyda'm mab i ystafell yr hynafiaethau, ac yno cawsom fenthyg casgliad o'r North Wales Gazette am y flwyddyn 1825, wedi ei rwymo mewn cyfrol. Mewn colofn ar waelod dalen yn rhifyn Mehefin yr ail, gwelsom yr adroddiad yma. Fy nghyfieithiad llac i ohono yw'r canlynol.

GWEITHRED YSGELER: Aeth gŵr ieuanc o'r enw John Roberts i dŷ ym mhlwyf Llanddeiniolen o'r enw Fron Chwith yn y sir hon, ym mha le yr oedd wedi bod yn gweini dro yn ôl, a dychrynlyd i'w gronico, cymerodd gryman ac archollodd wraig y tŷ mewn mannau ar ei breichiau yn y modd mwyaf dychrynlyd. Rhoddodd iddi hefyd archoll ddofn yn ei phen, a dihoenodd y ddynes dlawd hyd nes y gollyngodd angau hi o'i dioddfaint. Roedd hi'n wraig elusenol a theimladwy, ac mae hi wedi gadael gŵr hoff i resynu ei cholli. Archollodd hefyd y gwas a'r forwyn gyda'r erfyn, tra hwy yn ceisio amddiffyn eu meistres. Mae'r truan ar hyn o bryd yng ngharchar Caernarfon yn aros ei brawf. Mewn rhifyn diweddarach roedd hyn:

Mae'r ffaith fod brawdlys y sir yma heb ddibenu tan ddydd Mawrth diweddar, yn ein rhwystro i roi'r manylion llawn yn y rhifyn hwn. Byddant yn ymddangos yn y rhifyn nesaf. Fodd bynnag, cafwyd John Roberts a safodd gerbron am lofruddio Mary (camgymeriad amlwg) gwraig John Roberts, amaethwr ym mhlwyf Llanddeiniolen, yn euog, ond allan o'i bwyll. Gorchmynwyd iddo gael ei gadw i aros pleser ei Fawrhydi (Siôr IV).

Wedyn o'r North Wales Gazette,

Awst 8ed, 1825

Sessiynau Mawr Caernarfon o flaen Anrhydeddus Farnwr Raine a'r Anrhydeddus Mr. Kendrick. (Mae'r adroddiad mewn mannau yn amwys).

Y Brenin ar erlyniad John Roberts amaethwr, yn erbyn John Roberts llafurwr am lofruddiaeth. Dywedodd y Twrnai Gwladol wrth y rheithgor fod y carcharor wedi ei gyhuddo o fwriadol lofruddio un Catherine Roberts yn ddiweddar o'r Fron Chwith ym mhlwyf Llanddeiniolen yn y sir hon; ar fore 27ain o Fai diweddar aeth y carcharor i dŷ'r erlynydd gyda chryman yn ei law, a tharawodd yn gyntaf y forwyn, yna tarawodd ei meistres gyda'r un erfyn marwol amryw o weithiau yn ei breichiau ac yn ei phen, o ba archoll y bu iddi farw.

Elin Williams, Morwyn yn y Fron Chwith welodd y carcharor yn dod i'r tŷ naw o'r gloch y bore ar Fai 27ain ddiweddar, roedd ganddo gryman yn ei law, roedd hefyd yn bresennol ei meistres a thair morwyn, tarawodd hi yn ei haed â'r gryman, gwelodd y tyst ef wedyn yn taro ei meistres. Rheddodd y tyst allan i chwilio am gynorthwy. Ymhen ychydig funudau gwelodd Mary Evans, morwyn arall ei meistres a'r carcharor y tu allan i'r drws, roedd yn ei hergydio â'r cryman; daeth atynt y meistr a'r gwas (Griffith Roberts). Tarawodd y carcharor Griffith Roberts ac yna dihangodd gan adael y feistres ar ei gwyneb ar y llawr. Roedd yna archollion ar ei breichiau a thu ôl i'w phen. Bu fyw o ddydd Gwener hyd gyda'r Nos Fawrth. Dywedodd Griffith Roberts yn cael ei archwilio gan Mr. Cockerell, ei fod wedi trigo gyda'r erlynydd ers pedair blynedd ar ddeg, bu'r carcharor am gyfnod yn cydweithio ag ef. Roedd wedi

sylwi ei fod ar adegau yn dueddol i'r felan ac yn amddifad o synhwyr, cynhigiodd daro'r tyst fel gwallgofddyn, roedd o'r farn nad oedd yn ei iawn bwyll; doedd yna ddim cweryl wedi bod rhwng y feistres ag o. Roedd y carcharor wedi madael o'r Fron Chwith ers pedair blynedd.

Griffith Roberts. Roedd Griffith Roberts yn trigo yn Fron Chwith ar y 27ain o Fai diweddar. Cofiodd glywed rhywun yn gweiddi am gynorthwy. Pan aeth yno gwelodd ei feistres yn gorwedd ar ei gwyneb ar y llawr a'r carcharor yn ei hergydio â'r gryman. Dihangodd ond tarawodd y tyst wrth fynd i'w bwyll. Aeth y tyst a'i feistres i'r tŷ, roedd hi wedi ei harcholli yn ddrwg yn ei breichiau a'i phen.

Roedd Robert Roberts wedi bod yn llawfeddyg am tuag ugain mlynedd. Mae'n trigo yn Llanberis ac anfonwyd amdano ar y 27ain o Fai i'r Fron Chwith, gwelodd Catherine Roberts yno yn ddifrifol wael, archwiliodd hi a chanfyddodd glwyfau ar ei phen a'i gwar; (yma disgrifiodd natur y clwyfau). Yr oedd o'r farn mai'r clwyfau hyn fu achos ei marwolaeth.

Mae John Roberts yn llawfeddyg yn trigo ym Mangor. Gwelodd Catherine Roberts y Fron Chwith ar

y 30ain o Fai ddiweddar, yn difrifol wael o ganlyniad i anafau a gafodd (disgrifiodd y tyst natur y clwyfau). Yr anafiadau yma fu achos ei marwolaeth, buasai wedi trengi gyda'r feddiginiaeth orau. Cauwyd yr achos o du'r erlyniad pan alwodd Mr. Cockerell a oedd yn ymddangos tros y carcharor, ar dri gwahanol dyst, a brofasant fod y carcharor ar brydiau yn wyllt a threisgar, ac yr oedd hefyd wedi ceisio cyflawni gweithred o hunanladdiad ychydig amser cyn y digwyddiad trist, holwyd ef gan lawfeddygon, y rhai a sicrhant nad oedd amheuaeth ei fod allan o'i bwyll; crybwyllodd un llawfeddyg yn arbennig fod yna anaf ar benglog y carcharor ac fod hwnnw ar ffurf anghyffredin.

Dedfryd. Dieuog am ei fod allan o'i bwyll.

Roedd y llanc yn anffortunos ar y pryd yn gweini yn y Rhydau, fferm gyfagos. Dywedir i gorff Catherine Roberts gael ei gludo ar elor ar hyd y llwybr cyhoeddus ar draws corsydd, a erys yn dramwyfan hyd heddiw, ac heibio i'r Ffynnon Gegin, ac i fyny ar hyd y lôn bridd i Ben Dinas, ac yna i lawr Lôn y Gof, sydd wedi ei hail fedyddio gan y di-draddodiad yn Green Lane, ac i Landdeiniolen.

Y Gwalch

DIM FFOTOCOPIO

"Cadwn yr hawl i gychwyn achos cyfreithiol yn ddirybudd". Dyna'r neges a gafodd cwmni cyhoeddi cerddoriaeth yn ddiweddar.

Derbyniodd Cwmni Gwynn, Penygroes, sy'n enwog am eu cyhoeddiadau cerddorol ar gyfer côrau, ohebiaeth yn ddiweddar oddiwrth Ysgrifennydd Cymdeithas y Cyhoeddwyr Cerddoriaeth (The Music Publishers' Association) yn LLundain. Hwn yw'r corff sy'n gyfrifol am warchod hawlfraint pob cyhoeddiad cerddorol.

Y mae'r ohebiaeth yn dilyn ystyriaeth gyfreithiol a roddwyd

i achos Côr arbennig o Gymru a fu'n ffotocopiio un o'r darnau a gyhoeddir gan Gwynn.

Fel gwybodaeth i Gwmni Gwynn y mae'r Gymdeithas yn hysbysu iddynt drafod y mater gyda chyfreithwyr y Côr dan sylw, ac yn dilyn hynny, wedi penderfynu peidio erlyn ar hyn o bryd, ond yn cadw'r hawl i wneud hynny heb rybudd pellach yn achos y Côr arbennig hwn (neu unrhyw gorff arall) os daw mater cyffelyb i'w sylw eto.

Fe gofio i ysgol yn LLoegr gael dirwy o rai miloedd o bunnau rhyw ddwy flynedd yn ôl am drosedd o'r fath.

DERWYN HUGHES

Treflys
PENISARWAUN

Ffôn Llanberis
870945

Am
nenfydau
a waliau
siapus

Antex

E.W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Bistro

Glandŵr
43-45 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871278
(Danny a Nerys Roberts)



WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr)

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Arthur Pierce, Bro Waun, ar ddathlu eu Priodas Aur.

CYFEILLION CERDD IEUENCTID GWYNEDD - Bore Coffi - Mai 7fed, 1987: Y mae Ann Marston, Blaen y Nant, yn diolch yn fawr i'r bobl lleol, cyfeillion a'r cerddorion am wneud y bore coffi mor llwyddiannus. Casglwyd dros £100.

MERCHED Y WAWR: Nos Iau, Ebrill 30 cafwyd arddangosfa drin gwallt gyda Ann W Williams, Waunfawr, gyda K M Jones a M Eaglestone yn modelu, a del iawn oeddynt. Diolchwyd iddi gan M V Jones. Cydymdeimlwyd â theulu y diweddar C A Pritchard gan y llywydd a dymunodd wellhad buan i Mrs K W Jones, Mrs Tegwen Jones a Mrs Morley Williams sydd yn yr ysbyty. Gwesteion y te oedd Bet Hughes, Lyn Roberts a Jenny Jones, enillydd y raffl oedd Nan H Roberts, rhodedig gan Bet Hughes. Longyfarchwyd y tîm darts, sef Cadi Jones, Nan H Roberts a Glenys Williams. Byddant yn cynrychioli rhanbarth Arfon yn y Drenewydd ym mis Mehefin. Hefyd Glenys Jones ar ddod i'r rownd derfynol yn chwarae dominos ond yn colli'r frwydr.

Bydd y trip diwedd tymor yn ymweld â'r Pili Palas yn Sir Fôn ar Fehefin 25, a phawb sydd am fynd i ddod a £5 gyda nhw i gyfarfod Mai 21 os gwelwch yn dda, neu eu rhoi i aelod o'r pwyllgor.

CANOLFAN WAUNFAWR: Yng nghyfarfod diwethaf pwyllgor Canolfan Waunfawr, cynigiwyd pleidlais o ddiolchgarwch i Glenys Jones, Rhandir Mwyn yn dilyn ei gwaith rhagorol fel ysgrifenyddes i'r Ganolfan dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Diolchwyd iddi gan Gadeirydd y Ganolfan, Eurig Wyn. Dywedodd fod ei gwaith trylwyr wedi rhoi trefn a chynllun ar weinyddiaeth y Ganolfan, ac y bydd hynny'n lles mawr i'r Ganolfan yn y blyneddoddi i ddod. Mae Glenys yn rhoi'r gorau i'r gwaith er mwyn treulio mwy o amser gyda'i theulu.

Mae Robat Williams wedi cytuno i ymgymeryd â gwaith yr ysgrifennydd ac mae'r pwyllgor yn dymuno'r gorau iddo.

Cytunodd Don Roberts i weithredu fel Is-gadeirydd yn absenoldeb Eurig Wyn, sy'n awyddus i gael cymorth gyda'r gadeiryddiaeth oherwydd pwysau gwaith. Mae'r pwyllgor hefyd yn dymuno'n dda i Don ac yn ddiolchgar iddo am ei barodrwydd i gynorthwyo gyda'r gwaith.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Ebrill: 1. £40: Keith Owen, Stad Tŷ Hen; 2. £25: Neville Owen, Bryn Gwylan; 3. £10: Mrs Rosalind Owen, Bryn Môr.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn yn fawr iawn â Mr Ron Turner, Collfryn, ar golli brawd;

ac â Mrs G Lloyd, Bryn Awelon ar golli mam.

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth mam a nain annwyl iawn, Mrs Phyllis Jones, Rhoslan. Yn gymeriad hoffus bu ei chyfraniad i'r pentref, ac yn enwedig i'r Capel a'r Ysgol Sul lle 'roedd yn athrawes, yn enfawr. Bydd yn gadael bwlch mawr ar ei hol a chydymdeimlwn yn arw iawn â'r tair merch, Rhiaian, Eryl a Nia, a'r teulu oll.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion at y rhai sy'n cwyno yn yr ysbyty gan obeithio y gwnant wella yn fuan iawn, sef Mrs Morley Williams, Fronllwyd; Mrs Tegwen Jones, Rhos Alun; Mrs Jones, Fron Hyfryd; Mrs Wyn Williams, Bro Waun a Mrs R Lewis, Rhes Eilian.

ADREF O'R YSBYTY: Da yw deall bod Mrs K W Jones, Bron Eifion; Mrs Nessfield, Bryn Argoed; Rhion Glyn, Stad Tŷ Hen; Mr Hugh Goronwy Williams, 6 Dol Erddi; Mr William Llewelyn Jones, Llannerch a Mr Idris Owen, Llys Awel, adref o'r ysbyty. Gobeithiwn eu bont yn parhau i wella.

DIOLCH: Dymuna Rhiaian, Eryl a Nia ddiolch yn garedig iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem o golli mam annwyl iawn, sef Mrs Phyllis Jones, Rhos Lan.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn Festri Croesywaun nos Iau, Mai 7fed dan arweiniad Mrs Pat Parry, y llywydd. Estynnwyd dymuniadau am adferiad buan i Mrs Katie Wynn Jones ac i Mrs Morley Williams sydd yn Ysbyty Gwynedd. Darllenwyd y llythyr misol a chofnodion y cyfarfod diwethaf.

Talwyd teyrnged dawel i Mrs Doris Lee a fu'n Drysorydd y Ffederasiwn am bum mlynedd, ac a fu farw yn ddiweddar.

Cafwyd noson ync nghwmni Mrs Maud Williams i drafod y pernderfyniadau i'r Cyfarfod Blyneddol a gynhelir yn Neuadd Albert ym mis Mehefin. Diolchwyd iddi gan Mrs Catherine Jones. Enillodd Mrs Morfa Evans y raffl a roddwyd gan Mrs Peggy Jones. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Mehefin 4 gyda Mr Gareth Heulfryn Williams yn ŵr gwadd.



YR YSGOL FEITHRIN: Fel rhan o weithgareddau'r Wyl Feithrin eleni fe gafodd y plant bach fore gwerth chweil yn gwylio ffilm o Wil Cwac Cwac ac fe ddaeth Angharad Tomos

draw efo Rala Rwdins, Rwdlan, Mursen y gath, Ceridwen a'r Dewin Dwl i ddweud storïau allan o'r gyfres, Rwdlan, ac i ddiweddu'r bore fe gafodd yr hen blant os de parti.

LLONGYFARCHIADAU: Y mae Anthony Marston, Blaen y Nant, wedi ei ddewis i ymuno â Cherddorfa Genedlaethol Ieuencid Cymru a fydd yn mynd o gwmpas y wlad yn ystod yr haf. Longyfarchiadau iddo.

YR EGLWYS: Cynhaliwyd noson goffi llwyddiannus nos Wener, 15 o Fai yn y Ganolfan. Codwyd swm sylweddol iawn at y gwaith o ail wneud Eglwys St Ioan a'r gobaith yw y bydd y gwaith yn dechrau yn ystod yr haf. 'Roedd nifer fawr o stondinau dan ofal Mrs L Jones, Mrs K Hughes, Mrs Bracegirdle, Mrs M Jones, Mrs Sprott, Mr a Mrs Harmon, Mrs M Dafydd, Mrs J Glyn, Mr a Mrs Overy, Mr Greasley a Mr Eaglestone.

Yn y gegin: Mrs G Jones, Mrs A

Edwards a Mrs E Williams.

Wrth y drws roedd Mr Wilf Jones.

Enillwyr y raffl oedd: Mrs Joan Griffith, Caernarfon; Mrs Ann Edwards; Mrs M Williams; Mr Wilf Jones; Mrs Stanley Williams; Mrs Overy a Miss Gladys Lewis, a chyflwynwyd y gwobrau gan Mrs Stella Lyle. Dymuna'r Rheithor, y Parch Barry W Thomas, ddiolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth a'u gwaith tuag at noson hapus a llwyddiannus.

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Ebrill:

1. John Huws Roberts, Pant Teg; 2. T J Griffith, Ty'n yr Onnen; 3. Dic Jones, Llwyn Onn.

THOMAS GEE A THOMAS CHARLES YN BWLCH UCHAF A GLADSTONE YN BETHESDA. BETH YW'R CYSYLLTIAD, DARLLENWCH YMLAEN?

Oddeutu ugain mlynedd yn ôl, tra yn dilyn ei alwedigaeth fel trydanwr ar dŷ yn rhes y Penrhyn, Bethesda, yn hollol ddamweiniol yng ngardd y tŷ bron o'r golwg gan ysbwriel, fe ganfu Mr Osmond Shaw, Bwlch Uchaf a'i gyfaill, gawell neu focs pren ac ynddo yr oedd tair llechfaen tebyg i gerrig beddau, ar un yr oedd enw Thomas Gee a cherflun ohono a'r dyddiad 1815-1898, blwyddi ei eni a'i farw. Ar yr ail garreg yr oedd enw Gladstone ond heb ei chwblhau, a'r drydedd heb waith o gwbl arni. Wedi peth ymchwil, deellir mai buddugol yn adran Grefft yn un o Eisteddfodau Bethesda oedd y cerrig, ac mai cyd-weithiwr i ddyn o'r enw Griff Jones, un fyddai yn gwneud llawer o waith llechfaen o gylch tân ac a welir hyd heddiw yn ardal Bethesda,

oedd y crefftwr buddugol.

Pwrcasodd Mr Shaw garreg Thomas Gee a'i chyrchu i Bwlch Uchaf, ac fe'i gwelir wedi ei gosod yn y wal ar y bont dros y ffrwd ger y tŷ, a dyna gysylltu Thomas Gee a Bwlch-Uchaf. Tybed a all rhai o ddarlennwyr yr Eco yn ardal Bethesda gyfrannu rhywfaint o wybodaeth pellach, megis enw'r gŵr buddugol, amodau'r gystadleuaeth a'r dewis o enwau enwogion. Y mae yn wybyddus fod cefnder i Thomas Gee wedi bod yn gweithio ym Manc y National Westminster ym Methesda tua 1910.

Ymhellach ym meddiant Mr Shaw y mae medal yn coffau dathlu canmlwyddiant sefydlu'r Ysgolion Sabothol yng Nghymru gan Thomas Charles o'r Bala. Daeth Mr Shaw o hyd iddi tra yn adnewyddu lloriau Bwlch Uchaf. Sut y daeth hon i Bwlch Uchaf tybed? Diolchwn i Mr Shaw am roi'r hanes diddorol hwn i ni.

H.J.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol



CARTREF YR HENOED
CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG
CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN
THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS
Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon
(0286) 4652

FEDRWCH CHI DDAL Y PYSGOD CUDD?

F	V	I	V	S	B	A	R	F	O	G	Y	N	Y	H
S	G	E	L	L	E	N	Z	C	O	O	Y	A	A	B
L	L	Y	F	R	O	T	H	E	N	F	Y	A	V	H
I	V	M	L	F	J	E	P	P	F	R	J	H	Z	J
A	J	E	K	M	D	R	T	V	D	A	B	D	G	N
D	M	R	S	R	R	H	R	H	A	F	R	A	W	N
Y	T	F	N	D	A	Y	H	C	W	N	I	Y	Y	I
B	D	O	Y	C	E	S	U	O	T	E	T	W	N	W
W	A	G	C	U	N	D	F	G	E	H	H	H	I	E
T	R	M	L	B	O	O	E	R	L	C	Y	N	A	S
G	S	O	I	B	G	K	L	O	L	R	L	E	D	M
P	E	K	P	B	Y	L	L	T	N	A	L	P	N	T
N	N	E	Y	H	N	X	C	E	E	W	B	L	A	T
W	D	W	E	O	G	Y	Z	F	P	G	D	D	H	L
G	R	W	D	Y	G	O	N	Y	W	L	L	H	G	M

Mae'r pysgod isod yn cuddio yn y patrwm ar y chwith. Gamp i chwi eu rhwydo i gyd!

Gwarchenfarfog;
Llyfrothen; Draenogyn;
Brithyll; Twbydail;
Rhufell; Torgoch; Pilcyn;
Sewin; Llwynogydwr;
Penlletwad; Barfogyn;
Penhwyad; Gwyniad;
Sgellen; Merfog; Darsen;
Eog.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs Mary Ff Roberts, Cerrigydrudion.

LLONGYFARCHIADAU i Cheryl a Billy Jones, 1 Bro Glyder ar enedigfaeth eu merch fach, chwaer i John Paul.

Hefyd llongyfarchwn Mrs Ann Jones, Maes yr Haul, ar fod yn nain eto. Cafodd Hilda ei merch eneth fach.

Yr un dymuniadau i Mr a Mrs T G Pritchard, mae hwythau yn daid a nain eto. Cafodd Hefina, eu merch, eneth fach. Dymuniadau da iddynt i gyd.

DYMUNWN wellhad buan i Mrs Jinni May Williams ar ôl cael codwm yn ei chartref, Cae Perthi. Mae ar hyn o bryd yn aros gyda'r ferch. Da yw clywed fod Sian Pritchard, Llys Awel yn gwella ar ôl cael triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd.

CYDYMDEIMLWN fel ardal hefo Rhian, Morris a Carys yn eu profedigaeth o golli eu mam, Mrs Florence H Williams, Terfyn.

Cydymdeimlwn fel ardal hefyd â Mrs Betty Humphries, Helen a'r teulu ar ôl colli priod a thad annwyl, sef Owen Humphries, Gwastadnant.

LLONGYFARCHIADAU i Gwen Griffiths, 6 Rhes Glanrafon ar fod yn llwyddiannus yn ei Arholiad Gradd I hefo'r piano. Mae Gwen yn ddisgybl i Mrs Linda Griffiths. Dal ati Gwen.

DYMUNA Sian Pritchard, Llys Awel, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ati tra yn yr ysbyty.

Ar Ebrill 30ain yn dawel ar ôl gwaelodd byr yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs Florence Harper Williams, (Telynores Gelert), Terfyn, yn 65 mlwydd oed. Daeth i fyw i'r Nant, 47 mlynedd yn ôl pan briododd â'r diweddar John (Hafod gynt). Bu yn aelod o Gôr Telyn Eryri a bu dros y

wlad yn canu gyda'r tannau. Bu'r angladd ar Fai 5ed gyda gwasanaeth cyhoeddus yng Nghapel Rehoboth dan ofal y Parchedig Trefor Lewis a Mr Robin James Jones gyda'r delyn, ac yna yn dilyn ym Mynwent St. Peris.

DYMUNA Rhian, Morris a Carys a'r teulu oll ddiolch i bawb am eu geiriau caredig, am y llw cardiau, llythyrau a galwadau ffôn, hefyd y rhoddion hael at ymchwil y cancr.

Diolch arbennig i'r Parchedig Trefor Lewis, Mr Robin James Jones, Mr T G Pritchard, Mr D E Griffiths a Mr Myrddin Pritchard.

Ymryson Cŵn Defaid Nant a'r cylch

Cynhaliwyd trydydd Ymryson Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch ddydd Gwener a Sadwrn, Mai 22 a 23.

Daeth dau ymgeisydd a fu'n llwyddiannus yn y treialon cyntaf yn 1985, Mr Brian Owen, Nant Peris a Mr W D Williams, Aberdaron i'r brig eto ac enillwyd Tarian Gwesty'r Fictoria gan Mr W H Hughes, Deiniolen (y gorau lleol yn y Dosbarth Agored-Ail Ddosbarth)

CANLYNIADAU

Dosbarth Agored

Cwpan y Brodyr Morris: 1. W D Williams, Aberdaron a Ben; 2. John Lightfoot, Wrecsam a Black; 3. W H Hughes, Deiniolen a Moss(gorau lleol); 4. Glyn Jones, Bodfari a Cap; 5. H Jones, Rhydymain a Meg (gorau dan 25 oed); 6. Ceri Parry, Afonwen a Don; 7. John Lightfoot, Wrecsam a Moss; 8. Mick Lee, Pentraeth a Jim; 9. John Lightfoot, Wrecsam a Trim.

Ail Ddosbarth

Cwpan Wavel Roberts: 1. W H Hughes, Deiniolen a Moss; 2. Gwilym Roberts, Pwllheli a Kep; 3. Raymond Ewing, Rhosmeirch a Meg; 4. John Cross, Llanberis a Dot; 5. Eifion Owen, Carmel a Morgan; 6. Gwynfor Pritchard, Chwillog a Roy.



Criw lleol yn Ymryson Cŵn Defaid Nant Peris

Enillwyd Tarian Gwesty'r Victoria (y gorau lleol yn y Dosbarth Agored-Ail Ddosbarth gan W H Jones, Deiniolen.

Dosbarth Lleol

Cwpan Rheilffordd yr Wyddfa a Chwpan Dolbadarn: 1. Brian Owen, Nant Peris a Charlie; 2. Alan Roberts, Llanberis a Cap; 3. Derek Williams, Dinorwig a Kep; 4. Joe Davies, Llanberis a Lad; 5. Stan Morgan, Bethel a Moi; 6. Dafydd Pritchard, Nant Peris a Roy

Enillwyd Cwpan FMC i'r cystadleuydd gorau dan 25 oed gan Hefin Jones, Rhydymain.

Enillwyd y raffl gan y canlynol: 1. £30: Glenys Jones, Cwellyn; 2. Ornament Ci: Roy V Jones, Tywyn; 3. Darlun: R E Parry, 23 Maes Swch, Llanfechell; 4. Whisky: Arthur, Royal Victoria Hotel; 5. Lamp: C Thomas, 3 Bron Helen, Clwt y Bont; 6. Rum: Helen Mai Pritchard, Ty Isaf, Nant Peris; 7. Porc: G Hughes, 5 Mount Street, Porthaethwy; 8. Ffon Bugail: Sian Williams, 1 Gwastadnant, Nant Peris; 9. Vodka: Hefina Ellis, 2 Blaen Ddol,

Llanberis; 10. Cloc: Dewi, Felinheli; 11. Tocyn cig: D S Roberts, Gwesty Gwynedd, Llanberis; 12. Gin: Iwan Arfon Jones, Llanberis; 13. Hwytaden: Llangoed 610; 14. Siocled: Ken Evans, 1 Rhes Marian, Deiniolen.

Hoffai'r Pwyllgor ddatgan eu gwerthfawrogiad gan ddiolch i'r ardalwyr am eu cefnogaeth.



W H Hughes, Deiniolen a Moss.

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID

PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi

Wavell Roberts

CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

PORC CARTREF 80c y pwys

hanner mochyn wedi ei
dorri â'i baratoi ar gyfer y
rhewgist

Cig Cyflawn Cymreig

Cysylltwch â June a Cynan
Jones, Tanybryn, Nanmor,
Beddgelert, Caernarfon.
Ffôn: Beddgelert 353

LLYFRAU

GWOBRAU TIR NA N-OG 1987

Prif nod gwobrau Tir na n-Og yw cydnabod gwaith awduron ac arlunwyr; dyrchafu safonau ysgrifennu ar gyfer plant a phobl ifanc, a hybu prynu a darllen trwy ddwyn y cyfryw lyfrau i sylw'r darllenwyr. Cyflwynir dwy wobwr Gymraeg.

Ffuglen orau'r Flwyddyn

Cyflwynir y wobwr am y ffuglen orau i blant i Penri Jones am ei nofel **Jabas**. Nofel a ysgrifennwyd yn arbennig i'r arddegau yw **Jabas** ac y mae'n stori fywiog. Ynddi adlewyrchir hiwmor yn ogystal â thristwch ym mywydau'r ifanc. Cyhoeddir y nofel gan Wasg Dwyfor.

Yr awdur

Brodor o Eifionydd yw Penri Jones. Fe'i addysgwyd yn Ysgol Ramadeg Pwllheli a Choleg y Brifysgol, Bangor. Bu'n athro yng Nghaerdydd a Thonypandy ac ers 1976 mae'n dysgu yn Ysgol Eifionydd, Porthmadog. Bu'n gyd-olygydd **Llanw Llŷn** ers 1976 a **Yr Athro** ers 1980. **Jabas** yw ail nofel Penri Jones; cyhoeddwyd **Dan Leuad Llŷn** gan Y Lolfa ym 1983.

Llyfrau Eraill y Flwyddyn

Dyfarnwyd y wobwr am lyfr gorau'r flwyddyn i blant, ac eithrio ffuglen, i Alun Jones a J Pinion Jones, cyd-olygyddion y gyfrol **Gardd o Gerddi**, cyfrol sy'n cynnwys detholiad o gerddi cynganeddol i blant a phobl ifanc. Ffrwyth cystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Môn 1983 yw **Gardd o Gerddi**. Rhannodd y beirniad, T Llew Jones, y wobwr rhwng dau gasgliad teilwng ac awgrymodd fod y ddaw awdur yn cydweithio er mwyn llunio un gyfrol. Arluniwyd y gyfrol gan Jan Brett Breckon, gan Nesbitt a Susanne Chapman ac fe'i cyhoeddwyd gan Wasg Gomer gyda chymorth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru.

Y golygyddion

Bardd aml ei gadeiriau ac athro wrth ei alwedigaeth yw Alun Jones. Bu John Pinion Jones yn weinidog gyda'r Presbyteriaid ym Meirion, Caerfyrddin ac Ynys Môn.

LLYFRYN NEWYDD AR YR EISTEDDFOD

Newydd ei gyhoeddi y mae llyfryn bach Saesneg 'Eisteddfod - a Welsh Phenomenon' gan Margaret Jones.

Wedi ei ysgrifennu mewn arddul ysgafn a darllenadwy, nid yw'r llyfryn yn amcanu at fod yn waith ysgolheigaidd ac awdurdodol ond yn hytrach yn gyflwyniad byr a darllenadwy i un o sefydliadau mwyaf Cymru, sef yr Eisteddfod yn ei hamryfal agweddau. Ceir ynddo fraslun o hanes twf y mudiad Eisteddfodol trwy'r canrifoedd, a

chipolwg ar yr Eisteddfod Genedlaethol fel y mae heddiw.

Bydd y llyfryn yn addas i'w ddefnyddio mewn ysgolion ar gyfer cyrsiau ar ddiwylliant Cymru ac i ddysgwyr sydd am wybod rhagor am ein traddodiadau yn ogystal â'r iaith.

Pris y gyfrol 48 tudalen yw £1.50. Gellir ei gael o Swyddfa'r Eisteddfod neu gan lyfrwerthwyr lleol.

LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

ELIAS, Twm

Y Porthmyn Cymreig

Gwasg Carreg Gwalch

£1.25

Golwg ar hanes porthmona o'i gychwyniad, a'r modd y cyflawnid y gwaith.

GRUFFYDD, Llyr D.

GWYNDAF, Robin

Llyfr Rhedyn ei Daid

Gwasg Dwyfor

£3.50

Portread o'r llysiueuwr Evan Roberts, Capel Curig.

JARVIS, Branwen, gol.

Syr Thomas Parry 1904-1985

Cyngor Celfyddydau Cymru

£2.95

Hanes bro a bywyd Syr Thomas Parry (Cyfres Bro a Bywyd: 8)

JENKINS, Geraint H. gol.

Cof Cenedl II

Gwasg Gomer

£3.50

Yr ail gyfrol o ysgrifau ar agweddau ar hanes Cymru.

JONES, Eddie

Dawnsie Twmpath

Y Lolfa

£3.95

Casgliad o dros hanner cant o ddawnsiau gwerin cymdeithasol

JONES, Nerys Ann

Dewi Morgan

Y Lolfa

£2.95

Cofiant

JONES, W.J. gol.

Bro a Dinas

Gwasg y Dref Wen

(C.B.A.C.) £4.95

Cyfrl a edrydd hanes sir De Morgannwg mewn cerddi a storïau.

SMITH, Joan

EVANS, Dilwyn M. (Addas)

Manuel

Gwasg Gomer

£1.60

Y nofel ddiweddaraf yng Nghyffres Corryn.

TOMOS, Dewi

Cynhyrfu'r Dyfroedd

Cyhoeddiadau Mei

£2.00

Casgliad o straeon byrion wedi'u lleoli yn ardal chwareli Arfon.

EDGAR AP LEWIS

Hwyl o Fro'r Glowr

Y Lolfa, £2.45

Casgliad o straeon a phenillion doniol o ardal Cwm Tawe.

DEFNYDDIWR Y Ffordd A'R GYFRAITH

Athrofa er Ymchwil i Addysg

Drafnidiaeth, £3.40

Arweiniad i'r gyfraith a sut mae'n effeithio ar ddefnyddiwr y ffordd.

ROBERT GRIFFITHS

Streic! Streic! Streic!

Gwasg Taf, £4.95

Hanes streic y gweithwyr rheilffordd yn ne Cymru ym 1911.

ERIC HILL

Sblash gyda Smot!

Gwasg Gomer, £1.50

Llyfr plastig, diwenwyn a golchadwy, y gellir ei ddarllen yn y bath.

MATHEW HUGHES

Cerddi'r Machlud

Cyhoeddiadau Barddas, £2.50

Cyfrl newydd o farddoniaeth.

GORONWY W OWEN (cyfieithydd)

Heddychwr

Canolfan Genedlaethol Addysg

Grefyddol, £1.20

Hanes bywyd Mahatma Gandhi. (Cyfres Ffydd ar Waith).

WILLIAM OWEN

R'wbath at yr Achos

Gwasg Gomer £2.75

Casgliad o gyfraniadau William

Owen, Borth-y-Gest i'r rhaglen radio,

'Rhwng Gŵyl a Gwaith'.

CATHERINE STORR

Y Bwgarth

Gwasg Gomer, £1.60

Anrheg Nadolig arbennig o hyll yw

testun y llyfr diweddaraf yng

Nghyffres Corryn.

MELFYN R WILLIAMS

Adnabod Eich Hunan

Gwasg Gomer, £2.00

Y llyfr diweddaraf yn y project bioleg i

ysgolion uwchradd.

ROBERT WILLIAMS

Y Seint Greal

Jones (Wales) Publishers, £22.00

Adargraffiad o lyfr a gyhoeddwyd

gyntaf yn 1876.

APÊL YMCHWIL Y GALON

Cynhaliwyd Pwyllgor Cyffredinol o gangen Caernarfon a'r Cylch o Apêl Ymchwil y Galon yn ystod mis Mawrth. Y swyddogion am y flwyddyn 1987-1988 yw: Cadeirydd - Miss M Richards; Ysgrifenyddes - Mrs J Whitaker; Trysorydd - Mr I Owen; Trefnydd gwerthiant Cardiau Nadolig - Mrs M Pary. Penderfynwyd cael casgliad o ddydd o'r 8ed Mehefin hyd y 18ed o Fehefin, y flwyddyn diwetha casglwyd £1,500, a gobeithir am gefnogaeth da eleni eto. Dymuna y Pwyllgor ddiolch i drigolion Bro'r Eco am eu cefnogaeth.

CRONFA GOFFA R.H. OWEN

Cynigir Grantiau neu Fenthyciadau o'r Gronfa uchod mewn amryw o weithgareddau. Ceir manylion a'r amodau oddi wrth yr ysgrifennydd:

Aled Owen, 13 Charlotte Street, Llanberis.

Y ceisiadau i'w hanfon i mewn erbyn Awst 31.

URDD GOBAITH CYMRU

Pwyllgor Rhanbarth Eryri

MIRI MADOG

Sioe Deuluol ym Mhafiliwn

Eisteddfod Genedlaethol Bro Madog

Nos Iau, Awst 6ed, 1987.

Drysau'n agor am 10.30 o'r gloch

Arweinydd: Ifan Gruffydd

(Ma Ifan 'ma)

Artistiaid: Côr Godre'r Aran gyda

Tom Gwanas

Côr Penyberth, Hogia'r Wyddfa

Huw Chiswell a'i Fand

Pryd ma te, Trisgell

Pris Mynediad £3

Tocynnau ar werth yn Swyddfa'r Urdd (Caernarfon 3117)

Siop Eifionydd (Porthmadog 2795) Siop y Pentan

(Caernarfon 5262) Llên Llŷn (Pwllheli 612907)

BETWS GARMON

LLONGYFARCHIADAU: i H O Jones Tŷ Coch am ennill ar ganu mewn nifer o Eisteddfodau yn ddiweddar, ac i Meical Owen, Ystrad ar ddod yn gyntaf yn Sioe Nefyn hefo ceiliog. Pob lwc i Tony Burton Y Llythyrdy, mae wedi dechrau yn yr ysgol yn Waunfawr, ac yn dechrau siarad Cymraeg, dipyn o gamp, gan fod ei dad yn Albanwr a'i fam o Finland, ac wedi cael ei eni yn Sweden ac wedi byw yn y fan honno tan rhyw flwyddyn yn ôl.

Dyddiadur y Mis

MEHEFIN

1. LLUN: DEINIOLEN: Sefydliad y Merched

2. IAU: WAUNFAWR: Sefydliad y Merched

5. GWENER: PENISARWAUN: Gyrfa Chwist

8. LLUN: CWMYGLO: Taith Gerdded, 6.30 o'r gloch.

9. MAWRTH: LLANRUG: Trip Merched y Wawr.

11. IAU: Yr Etholiad Cyffredinol

15. LLUN: LLANRUG: Pwyllgor Blynnyddol Clwb Pêl-droed, 7.15 yn Ystafell y Seindorf.

16. MAWRTH: LLANRUG: Pwyllgor Apêl yr Urdd, 1990 yn yr Ysgol Gynradd, 7.0 o'r gloch.

PENISARWAUN: Clwb yr Heulwen

PENISARWAUN: Gyrfa Chwist.

17. MERCHER: LLANRUG: Plaid Cymru. Cyfarfod Blynnyddol Cangen Llanrug a'r Cylch yn yr Ysgol Gynradd, 7.30 o'r gloch.

18. IAU: LLANRUG: Cymdeithas Chwiorydd Pontrhythallt.

19. GWENER: PENISARWAUN: Eisteddfod Bentref, 5.30 o'r gloch.

25. IAU: WAUNFAWR: Trip Merched y Wawr.

27. SADWRN: YR ARDAL: Gwibdaith Clwb Eryri.

LLANRUG: Taith Hanesyddol y Gymdeithas Undebol.

GORFFENNAF

4. SADWRN: PENISARWAUN: Trip Ysgol Sul Bosra ac Ysgol Sul Eglwys Santes Helen.

LLANRUG: Trip Ysgol Sul.

CHWARAEON

ATHLETAU YSGOL BRYNREFAIL

Tŷ Eryri fu fuddugol yng Nghyfarfod Athletau'r Ysgol ar Fai 13eg, gan drechu Elidir o 2xpwynt, a hwy hefyd aeth â'r Cwpan am holl weithgareddau'r flwyddyn, Gwyrfa'i yn ail, ac yna Eilian ac Elidir.

Disgybl blwyddyn gyntaf, Aled Griffiths o Fethel, yw'r Victor Ludorum am eleni (23 pt), gyda Linda Prytherch a Barley Massey yn rhannu'r pwyntiau i ddod yn Victrix Ludorum.

Cafwyd perfformiadau arbennig iawn gan nifer o'r plant, ac fe'u gwobrwywyd â thlysau fel y gwelir yn y darlun isod.

Enillodd Paul Grant (Dos 5B) ugain pwynt, gan ddod yn gyntaf yn y ras dros 100m, 200m, 400m, 800m a 1500m. Bu Rhian Rhagfyr

Roberts (Dos 1) yn fuddugol ar daflu'r picell, y ddisgen a'r pwysau ac hefyd yn y ras 800m; Kelvin Houston (Dos 2A) ar y bicell, y Naid Hir a'r Naid Driphlyg; Gillian Glass (Dos 4) ar y ras 1500m ac 800m a Jennifer Clarida (Dos 3) dros 100m a 400m.



Gillian, Jennifer, Paul, Kelvin a Rhian, gyda Barley ac Aled yn y rhes gyntaf.

Yn dilyn y cyfarfod, dewiswyd tîm i gynrychioli'r ysgol yng Nghyfarfod Athletau Arfon ym Mangor ar Fai 21ain, a dyma'r canlyniadau perthnasol (gweler eu llun ar y dudalen ganol).

Dan 13 oed: Rhian R. Roberts - 1af Disgen, 2il Picell, 4ydd Pwysau; Aled Griffiths - 2il 200m, 3ydd Naid Driphlyg.

Dan 15 oed: Kelvin Houston - 1af Naid Driphlyg; Linda Prytherch - 2il Picell

Dan 17 oed: Paul Grant - 1af 1500m; J. Terry Williams - 3ydd Picell

Dan 19 oed: Dafydd M. Jones - 2il Naid Hir.

Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

CRICED

Llongyfarchiadau i Rheon Larsen o Benisarwaun ar gael ei ddewis i gynrychioli tîm hŷn ysgolion Gwynedd. Mae Rheon yn fowliwr cyflym eithriadol o addawol, ac yng nghwmni Gareth Williams (Llanrug), Dylan E. Jones (Penisarwaun) ac Alan Williams (Bethel), yn aelod o ail Dîm Criced Fron Dinas. Yn wir, mae mwyafrif y tîm hwn â chysylltiad â'r ysgol, gan fod Harry Jones (y capten), Dic Parry a Dafydd Evans hwythau yn athrawon yno.

Mae ym Mron Dinas dîm ieuencid hefyd, a chynrychiolwyr yr ysgol ynddo yw Chris Tilson, Chris Hobby, Dafydd Ll. Jones, Mark Porter, Barry Roberts, a Iestyn Jones.

PÊLDROED

Mae Marc Williams o Lanberis wedi ei ddewis fel un o Chwaraewyr disgleiriaf Ysgolion Gwynedd i fynychu cwrs pêl droed yn Aberystwyth yn ystod gwyliau'r haf. Pe bai'n llwyddo i wneud argraff dda yno, byddai siawns ganddo o ennill cap. Ysgolion Cymru dan 15 oed y flwyddyn nesaf. Pob lwc iddo.

PYSGOTA Adroddiad HP Hughes

Araf iawn fu'r pysgota ar yr afonydd hyd yma. Y tywydd sy'n cael y bai ac erbyn meddwl bu'n dymor rhyfedd iawn, canys ar Sul 17 o Fai, roedd eira i'w weld ar y Carneddau!

Yr unig ronyn o obaith fu Llyn Padarn, sydd wedi pysgota yn eithriadol dda gyda cynthron ar y gwaelod a nifer dda o dorgoch yn dod i'r lan. Yr aelodau ieuengaf sydd yn flaenllaw yn y dal, mi fuaswn yn ddiolchgar pe buasai rhai o'r hogiau yma yn gadael imi wybod pa nifer maent yn gael, yn enwedig o'r torgoch.

I fyny at benwythnos y 23ain o Fai, araf iawn fu'r pysgota pluen ar y llyn gyda'r naid dwll nos ond yn parhau rhyw ychydig funudau ar y goreu. Plu tro mân sydd wedi bod yn dal rhyw ychydig i mi.

Gobeithio fodd bynnag y bydd yr

afonydd wedi cael cyflenwad o ddŵr a llif go dda erbyn y mis nesaf er mwyn, hefo tipyn o lwc, cael sôn yn y rhifyn nesaf o'r Eco am y sewin a fydd, mwy na thebyg, wedi dod i'r rhwyd, ac efallai rhyw eog neu ddau.

PELDROED LONGYFARCHIADAU

Daeth tymor hir y bêldroed i ben o'r diwedd a phleser o'r mwyaf yw cael adrodd am lwyddiant rhai o dimau'r ardal.

LOCOMOTIVE LLANBERIS

Y Darans, heb amheuaeth o gwbl oedd tîm y tymor, yn bencampwyr Cynghrair Gwynedd yn eu tymor cyntaf, a hynny heb golli'r un gêm - 31 o bwyntiau allan o'r 32 oedd yn bosib! I gyflawni'r 'clean sweep' yng ngeiriau eu rheolwr, Iwan Williams, fe godwyd Cwpan Gwynedd ahefyd Darian Eryri ganddynt.

O'r 129 gôl a sgoriwyd, Steven Williams fu' taro'r rhwyd amlaf, - ef yn wir oedd prîg sgoriwr y Gynghrair. Yr unig dîm i'w trechu yn ystod y tymor oedd Bethesda, pencampwyr Cynghrair Gogledd Cymru am eleni. Hwy fu fuddugol yn rownd Cyn-derfynol Cwpan Barritt, Cwpan Gogledd Cymru a'r 'Intermediate' dros Llanberis.

Llongyfarchiadau hefyd i Lanrug am ddod yn ail yng Nghynghrair Gwynedd ac am roi gêm galed i Lanberis yn 'ffeinal' y Darian ar yr Ofal. Ar ôl bod 2 gôl i ddim ar y blaen, rhywsut fe ganiatawyd i Lanberis sgorio pedair a chodi'r tlws.



TÎM DAN 12 OED LLANRUG

Dyma dîm arall fu'n gyfrifol am ysgubo popeth o'u blaenau. Ni fu cipio'r gynghrair yn fawr o drafferth iddynt, 33 pwynt allan o 34 gan sgorio 122 o goliau yn erbyn 16. Hwy oedd enillwyr Cwpan Cledwyn Parry hefyd, gan guro Llanllechid o 5 gol i 0 yn y Gêm derfynol yn Llanberis. Meical owen (35) Aled Roberts (25) a Simon Murphy (22) oedd eu sgoriwr prysuraf.



Ni fu timau iau eraill yr ardal mor llwyddiannus, er i dîm dan 18 oed Llanberis chwarae yn ffeinal Cwpan eu Cynghrair yn erbyn Caernarfon. Gobeithiwn am well hwyl y tymor nesaf i dimau dan 16 oed Deiniolen, Llanberis, Cwm-y-Glo a Llanrug, er ei bod yn amlwg iddynt fwynhau eu tymor. Wele lun Barry Jones, Capten Llanrug yn cyflwyno tarian i Max (G.P. Jones) eu rheolwr mewn gwerthfawrogiad o'i ymdrechion drostynt yn ystod y tymor.



Llanberis v Llanrug — Ffeinal y Darian ar yr Ofal.